CLONC

www.clonc.co.uk

Enillydd Gwobr Menter Cymunedol Gwobrau Busnes Ceredigion 2007

ISSN 1753-1071

Rhifyn 265 - 50c
Gorffennaf 2008

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Bachu Bag Papurau Bro

Tudalen 5

Cadwyn arall o gyfrinachau

Tudalen 13

Catrin Finch a Lowri

Tudalen 24

Cyngerdd Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen

Disgyblion Ysgol Gynradd Llanwnnen yn ymarfer y cyngerdd yn Theatr Felinfach. Mwy o luniau ar y dudalen gefn.

'The Edge of Love' ffilm am fywyd Dylan Thomas a ffilmiwyd yn lleol.

Tudalen 3

Cerdded dros Ymchwil y Cancr

Prif lun: Aelodau Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan yn 'Race for Life' Aberystwyth wedi codi cyfanswm o £1207.00. Uchod: Ceinwen Jenkins, Mair Page ac Eirian Jones - tair chwaer yn 'Race for Life' yn Llanelli. Gyda Wendy (merch Eirian), mae'r pedair wedi codi £995 rhyngddynt.

Yn y Clwb Rygbi

Ar ddiwrnod braf ym mis Mehefin, dyma holl dimoedd rygbi Clwb Rygbi Llambed - pawb yn defnyddio'r un cae i chwarae.
Mae rhai o swyddogion y Clwb bellach yn galw am gaeau chwarae ychwanegol.

Recordio Cwis Newyddion Radio Cymru 'Bwletin' yng Nghlwb Rygbi Llambed yng nghwmni'r Cwis Feistr Gary Slaymaker
a'r cystadleuwyr Dewi Pws, Kevin Davies, Ifan Gruffydd a Caryl Parry Jones.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Gorffennaf	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Medi	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan	
Dylunydd:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Aelodau Newydd!

Mae Capel ar draws y ffordd yn denu brain y fro, ac yn boen i'r cymdogion. Cofiaf am achos tebyg a rhywun yn holi am gyngor i'r Gweinidog. Ni phetrusodd ddim cyn rhoi ei ateb, "Gwnewch nhw'n aelodau - welwch chi ddim ohonyn nhw wedyn!" Oes gyda'ch chi frain yn aelodau?

Llwyddiant.

Rhaid i ni sylweddoli cyn daw canlyniadau arholiad fod llwyddiant yn fwy nag A neu A*. Deuthum o hyd i gerdyn mewn eglwys yn ddiweddar a dyma fyrdwn y neges :–

"Llwyddiant yw derbyn gair o ganmoliaeth; am fod yn barod i gysuro rhywun a gwneud y gorau fedrwch chi. Am fod yn ddistaw pan medr eich geiriau frifo. Bod yn fonheddig mewn sefyllfaoedd anodd; - yn fyddar pan glywch chi glecs a chydymdeimlo â phroblemau'ch cyfeillion.

Fe'u cewch mewn cân a chwerthiniad iach, mewn balchder ac anobaith – trwy'ch bywyd oll fyddwch chi byth yn bell o fod yn llwyddiant mewn rhywbeth."

08453860740

Gall eich galwad ffôn i'r rhif uchod fod o gymorth mawr i Dŷ Geraint ar safle Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth. Uned yw hon sy'n rhoi cymorth i gleifion sy'n dioddef o gancr ac yn gymorth mawr iddynt ddod dros neu fyw gyda'r clefyd. Gan nad ydyw yn cael ei gyllido gan y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, mae ganddynt broblem; mae'r arian yn prinhau ond mae'r Loteri Genedlaethol yn dod i'r adwy trwy ofyn i'r cyhoedd bleidleisio ar nifer o wahanol brosiectau trwy Brydain. Yn ffodus mae Tŷ Geraint yn un ohonynt. Dim ond deialu'r rhif sydd eisiau ac fe glywch i lais yn diolch i chi - dim ond un galwad ffôn fedrwch chi wneud gan y byddant yn anwybyddu mwy nag un ar yr un Rhif. Cofiwch fod rhif gwahanol ar eich ffôn symudol.

Lleidr aflwyddiannus.

Yn ddiweddar rydym wedi bod yn rhoi cnau allan i fwydo Cnocell y Coed sy'n ymwelydd cyson â'r ardd. Bob bore mae rhywbeth wedi llwyddo i godi'r pecyn cnau a'i lusgo hyd yr ardd. Y bore yma cafwyd esboniad - un o'r cymdogion y soniais amdanynt yn gynharach - 'brân dyddyn' yn llwyddo i godi pecyn yn pwyso dros ½pwys - os daw hi i dreio yfory, bydd yn rhaid iddi godi postyn haearn hefyd! Trueni na fuaswn wedi medru dal y cyfan ar gamera!!

Diolch.

Mae'n hyfryd derbyn eich sylwadau – fe glywais sawl un yn cytuno â mi am y dryswch, pam fod ffermwr ddim yn cael claddu anifail ar y fferm a bod corff dynol yn cael. Oes gan un ohonoch esboniad? Os oes, danfonwch i 'Cloncyn' trwy ofal Cadeirydd Clonc.

Pob hwyl

CLONCYN

Cydnabyddir yn ddiolchgar grant o £500 gan Gyngor Sir Ceredigion.

Llambed yn y Simema

Ymateb gymysg oedd i ymddangosiadau cyntaf y ffilm am fywyd Dylan Thomas 'The Edge of Love'. Ffilmiwyd rhannau ohoni yn Llambed ac ardaloedd eraill yng Ngorllewin Cymru fel Cei Newydd, Aberteifi a Chaerfyrddin.

Flwyddyn yn ôl, roedd Stryd Fawr Llambed yn llawn bwrlwm Hollywood – y camerâu, y goleuadau a'r sêr Keira Knightley, Sienna Miller a Mathew Rhys. Newidiwyd siop flodau Cascade i fod yn siop yn gwerthu tybaco, rhoddwyd sachau tywod o flaen Neuadd y Dref i gyfleu naws yr Ail Ryfel Byd. Gwelwyd hen gerbydau ar y stryd a defnyddiwyd ystafell yr hen lys i ffilmio'r achos rhwng Dylan Thomas a William Killick y milwr a fu'n saethu at ei fwthyn oherwydd perthynas y bardd â'i gariad.

Yn y cyhoeddusrwydd a roddwyd i'r ffilm gwelwyd golygfa o Mathew Rhys a Sienna Miller ym mynedfa Neuadd y Dref. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld mwy o olygfeydd cyfarwydd yn y ffilm pan y daw i sinemâu lleol.

Dywed ambell i adolygiad cynnar fod y golygfeydd yn Llundain yn dda ond siomedig yw'r hyn a welir wedi i Dylan ddychwelyd i Gymru. Deallir nad yw'r ffilm yn canolbwyntio llawer ar Dylan y bardd, ond yn hytrach yn fwy ar y ddwy fenyw yn ei fywyd. Beirniadir dehongliad y ddwy actores o Caitlin a Vera serch hynny, yn enwedig eu hacenion. Ond clodforir talentau diymhongar Mathew Rhys wrth bortreadu Dylan Thomas, a llwydda'n arbennig i gyfleu llais y Cymro – cystal â Richard Burton yn ôl rhai.

Ta beth y feirniadaeth, i ni, dyma'r blocbyster i'w weld yr haf hwn. Gallwn ymfalchïo yng nghyfraniad yr ardal hon i fywyd y bardd a chynhyrchiad y ffilm.

Beth yw eich barn chi? Danfonwch eich ymatebion i Clonc: golygydd@clonc.co.uk

---

Cyfarfod Blynyddol Clonc

Ar yr 20fed o Fai cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Clonc yn y Fishers Cellan. Dewiswyd Marian Morgan Drefach yn Is Gadeirydd. Mae Marian yn aelod o dîm golygyddol Clonc ers sawl blwyddyn. Dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd. Diolchir yn gynnes iawn i Twynog Davies, Pentrebach a fu'n Is Gadeirydd ffyddlon iawn i Clonc dros y blynyddoedd. Er ei fod yn ildio'r awenau, mae'n parhau i gyfrannu'n gyson i'r papur bro. Clywyd hefyd fod Iorwerth Evans, Greenwell eisiau rhoi'r gorau i fod yn ohebydd Llangybi. Diolchir yn gynnes iawn iddo hefyd am ei gyfraniadau dros y blynyddoedd a chroesawir Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon i'r tîm. Mair sy'n rhedeg Swyddfa'r Post yn y pentref. Felly os oes newyddion gennych yn ardaloedd Llangybi a Betws, bydd Mair yn barod iawn i glywed oddi wrthych, er mwyn eu cynnwys yn Clonc.

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Troi eu golygon tuag at y de-orllewin wnaeth yr aelodau am drip mis Mehefin, a theithio tuag at Ddinbych y Pysgod.

Trefnwyd ymweld â Gerddi Coffa Hywel Dda yn Hendy-gwyn-ar-dâf ar y ffordd, a braf oedd cael ein croesawi yno gan wirfoddolwyr yn y ganolfan. Dros baned, rhoed ychydig o gefndir sefydlu'r ganolfan yn 1984/85 pan gaewyd hen safle'r mart yn Hendy-gwyn; rhannwyd ni wedyn yn dri grŵp i fynd o gwmpas y gerddi, a chael esboniad gan y ffrindiau yno am ystyr pob un o'r chwe gardd. Mwynhawyd y profiad yn fawr, er bod angen mwy na'r awr a hanner a dreuliwyd yno i weld pob dim. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r cyfeillion yn y ganolfan gan Dilwen George, y Llywydd.

Symud ymlaen wedyn i Ddinbych y Pysgod, a phawb i wneud fel y mynnent. Teithiodd rhai ar draws i swnt i Ynys Bŷr, eraill yn ymweld ag ambell le hanesyddol, a phawb y mwynhau awyr y môr a golygfeydd hyfryd yr arfordir.

Swper yng Ngwesty Nant-y-ffin, Clunderwen, cyn dod am adre, a phawb wedi mwynhau pryd blasus dros ben.

Bydd y daith nesaf ar y 9fed Gorffennaf i Slimbridge; y bws yn cychwyn o Lambed am 7.30 yb. Enwau ar unwaith i Yvonne (480590).

Eglwys Santes Gwenog

Bu Sefydliad y Merched yn cerdded o Cwmsychpant i Lanwenog, ac i ddiweddu'r noson mwynhawyd lluniaeth wedi ei baratoi yn yr eglwys fach.

Da yw clywed fod James Thomas (Llechwedd gynt) wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddo, ac i bawb arall sydd yn anhwylus ar hyn o bryd.

Enillwyr Clwb 100 mis Mai:- 1. Iwan Brain, Llangain; 2. Lucy Fillery, Ramsbottom; 3. Eleri Lewis, Rhiwson Uchaf.

Erbyn i'r rhifyn hwn o 'Clonc' ddod o'r wasg, bydd Garddwest Wendy ac Alan Mellor wedi ei chynnal. Diolch i'r ddau am eu gwahoddiad a'r cyfle i fwynhau'r ardd hyfryd, ac i'r cyhoedd am eu cefnogaeth.

Cynhelir yr achlysur nesaf ym mis Awst. Mae Mary Thomas a Miss Heddwen Davies, Prifathrawes Ysgol Llanwenog yn golygu trefnu rhaglen o gystadlaethau arlunio, cyfyngedig i'r ddwy ysgol yn y plwyf. Bydd y gwaith yn cael eu harddangos yn yr Eglwys ar yr 20fed o Awst. Yn ogystal, bydd yna gyfle i'r plant wneud gwaith cartre' er mwyn cystadlu,- a hynny drwy greu 'anifail' allan o lysiau. Trefnir cwis a helfa drysor o amgylch yr eglwys yn ystod y prynhawn. Cyfle i bawb ddod i fwynhau, ac i gael te hufennog.

Bethel a Brynteg

Bob blwyddyn mae'r 6 capel yn yr ofalaeth yn mynd ar bererindod, ac eleni trefnir ymweld â Phenllwyn, ger Aberystwyth, Llansilin a Dinas Mawddwy, ar y Sul cyntaf ym mis Gorffennaf. Cofiwn eleni am Evan Evans, Charles Edwards a John Davies. Cynhelir gwasanaethau yn y tair ardal, a bydd aelodau Bethel a Brynteg yn cymeryd rhannau yn y gwasanaethau ynghyd ag aelodau o'r capeli eraill.

Neuadd y Pentref.

Clwb 100 y mis. 1af - Ann Evendon, Cwrtnewydd, 2ail - Teresa Brain, Llangain.

C.Ff.I. Llanwenog

Yn ystod y mis mae Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog wedi llwyddo i gael mwy o lwyddiant, a hynny yn rali'r sir a gynhaliwyd ar fferm Pantydefaid, Prengwyn ar Fehefin 7. Cafodd nifer lwyddiant mawr yn eu cystadlaethau, ond llongyfarchiadau mawr i Elin ac Enfys ddaeth yn 2il yn y 'Generation Game; i bawb a fuodd yn rhan o'r carnifal a ddaeth yn 2il; i Luned a Lowri am ennill y gystadleuaeth ffotograffiaeth, ac i bawb a fuodd yn brysur yn paratoi ein harddangosfa ffederasiwn buddugol. Roedd yn grêt hefyd gweld ysgrifenyddes y clwb sef Iona Jones ar y llwyfan yn cael ei gwneud yn un o forwynion y sir. Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb a gymerodd ran yn y rali gan sicrhau fod C.Ff.I. Llanwenog yn dod yn 5ed ac yn ennill y cwpan am y mwyaf o bwyntiau ar hyd y flwyddyn. Diolch yn fawr iawn hefyd i bawb a fuodd yn ein helpu.

Ar Fehefin 16 cawsom fuddugoliaeth arall, wrth i ni gael noson o goets gyda C.Ff.I. Felinfach. Mi wnaeth pawb joio mas draw yn chwarae'r gêm, a llwyddodd Llanwenog i guro Felinfach o 24 pwynt i 44!

Llongyfarchiadau hefyd i Iona ac i Helen, dwy o'n haelodau sydd wedi priodi yn ystod y mis.

Cylch Meithrin Drefach

Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth Ysgol Cwrtnewydd i dreulio bore yn eu cwmni. Cawsom fore hyfryd o chwarae gyda'u llu adnoddau, gwrando ar stori gyda'r dosbarth derbyn, a chyn troi am adre bu plant y Cylch Meithrin yn chwythu swigod dros gae'r ysgol.

Aeth criw ohonom ddechrau Mehefin am daith i draeth Aberaeron. Pwrpas yr ymweliad oedd casglu cregyn ac adnoddau addas i greu murlun yn y Cylch. Nid oes yr un ymweliad yn gyflawn heb sglodion cyn troi am adref.

Cynhaliwyd yr Ŵyl Feithrin eleni yn y fferm 'Fantasy' yn Llanrhystud. Daeth tyrfa fawr ynghyd i fwynhau'r diwrnod. Wedi teithio o amgylch y fferm cawsom ein diddanu gan y 'Brodyr Gregory'.

Nos Wener 20fed o Fehefin cynhaliwyd ein taith 'gwthio gwely' noddedig flynyddol, o'r Cylch yn Nrefach i'r Llew Du yn Llanybydder. Paratowyd pryd blasus o fwyd i ni yn y Llew Du. Diolch i C.Ff.I. Llanwenog am gael benthyg y gwely unwaith yn rhagor.

Rhown groeso cynnes i Dewi a Maria sydd wedi ymuno â ni yn y Cylch.

Ysgol Llanwenog

Croesawyd Neide Willis i ddosbarth y Babanod ar ddechrau'r tymor, ac erbyn hyn mae'n ymgartrefu'n arbennig o dda yn ein plith.

Ar ein diwrnod rhyngwladol eleni, aethom draw i Ysgol Cribyn er mwyn cysylltu â'n hysgolion bartner yn yr Almaen a Denmarc. Gwnaethom hyn drwy gyfrwng fideo-gynadledda. I nodi'r achlysur roedd llawer o blant wedi gwisgo mewn gwisg draddodiadol o wledydd tramor. Diolch i bawb yng Nghribyn am eu croeso cynnes.

Gwerthfawrogwn hefyd gyfraniad Eleri Davies ein Cogyddes a fu'n hynod brysur yn pobi bara gan ddefnyddio ryseitiau o'r ddwy wlad yma. Cafodd y plant a'r staff wledd wrth flasu'r bara amrywiol.

Cynhaliwyd Cwrs Cymorth Cyntaf i rieni a phlant yr ysgol o dan arweiniad Heather Jenkins, o'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Pleser o'r mwyaf oedd clywed adborth canmoladwy'r rhieni ar ôl y sesiynau. Diolch i Heather am gynnal sesiynau mor ddiddorol.

Cynhaliodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol Noson o Fingo yng Nghlwb Rygbi Llanybydder yn ddiweddar. Codwyd swm sylweddol o arian i'r Gronfa, a charwn ddiolch i bawb a sicrhaodd lwyddiant y noson.

Yn wythnosol y tymor yma, mae disgyblion y Babanod yn mynd i'r Pwll Nofio yn Llandysul i gael gwersi, ac mae pawb yn elwa'n fawr o'r profiad ac yn datblygu'n nofwyr hyderus.

Mae'r tymor yma wedi bod yn un prysur iawn hefyd i'r Adran Iau ym maes chwaraeon. Cynrychiolodd Delyth Ann Jones, Rhys Jones a Rebecca McEnery Cylch Llambed mewn Cystadleuaeth Draws Gwlad Ceredigion yn Llangrannog.

Bu dau dîm o aelodau'r Urdd hefyd yn cynrychioli'r ysgol mewn Cystadleuaeth Potes yng Nghwrtnewydd. Cafwyd prynhawn yn llawn hwyl, a chyfle i gadw'n heini!

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 6 brynhawn o Chwaraeon yn Ysgol Ffynnonbedr. Diolch i Siân Davies, Cydlynydd P.E.S.S. am drefnu'r digwyddiad.

Cymerodd disgyblion Blwyddyn 5 hefyd ran mewn diwrnod o Chwaraeon yn Ysgol Gyfun Llambed yn ddiweddar. Diolch yn fawr iddynt am drefnu gweithgareddau'r dydd.

Rhaid oedd i bawb edrych ar eu gorau y mis diwethaf gan fod y Ffotograffydd wedi ymweld â'r ysgol! Edrychwn ymlaen yn awr at weld ein lluniau!!

Tywydd braidd yn gymysglyd gafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn ystod eu hwythnos ym Mhentywyn. Ond er gwaetha'r tywydd mwynhawyd amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn cynnwys campau dŵr, dringo, Rhaffau Antur, 'Archery' a cherdded trwy Goedwig Lacharn.

Yn absenoldeb y plant yma o'r ysgol bu gweddill y disgyblion yn brysur iawn yn garddio a pheintio potiau blodau. Diolch iddynt am eu brwdfrydedd a'u holl waith caled. Cafodd Blwyddyn 5 a 6 dipyn o sioc i weld y newidiadau pan ddychwelont o Bentywyn!!

Pleser o'r mwya oedd gwrando ar Gôr Ceredigion yn perfformio mewn cyngerdd yn y Neuadd Fawr ar yr 24ain o fis Mehefin. Roedd tri disgybl o Flwyddyn 6 sef Dyfan Unsworth, Rhys Jones a Steffan Evans yn aelodau o'r côr a charwn fel ysgol eu llongyfarch am fynychu'r ymarferion yn gyson ac am roi o'u gorau yn y perfformiad. Cysyllter â'r ysgol os dymunir archebu Cryno Ddisg o'r Côr yma.

Ar ran y Llywodraethwyr a'r Staff hoffwn estyn croeso cynnes i Gylch Meithrin Gwenog atom i safle'r ysgol. Gobeithiwn y byddant yn hapus yn ein plith.

Cylch Meithrin Gwenog

Yn gyntaf hoffwn ddiolch i Lywodraethwyr a Staff Ysgol Llanwenog am ein croesawu ni i'n safle newydd yn yr ysgol. Mae'r ddau dymor yma wedi bod yn rhai prysur iawn ers i 'Whizz Kids' gau ac wrth i ni ymsefydlu Cylch Meithrin Gwenog.

Yn ail hoffwn ddiolch yn ddiffuant i rieni'r Cylch am eu cefnogaeth werthfawr. Thema'r Tymor yma yw 'Teithio' a buom yn dra ffodus i gael ymweliad gan dractor enfawr tad Sion O'Keeffe a beic Quad trwy garedigrwydd John Doulton, Talsarn. Cafodd pob plentyn bach y cyfle i chwarae rôl y gyrrwr a chafwyd llawer o hwyl!

Rydym wedi cael tipyn o hwyl hefyd yn teithio 'go iawn' y tymor yma!! Cynhaliom Daith Gerdded Noddedig adeg y Pasg a charwn ddiolch i bawb a'n cefnogodd. Profodd y daith yn un hwylus iawn cyn dychwelwyd i'r ysgol i fwynhau picnic yn y cae.

Yna teithiom ar drên bach Henllan cyn mynd i gael picnic eto yn y Parc yn Llandysul! Hefyd cafwyd llawer o hwyl a sbri pan deithiom i Fferm Ffantasi i fod yn rhan o'r Ŵyl Feithrin.

Yn ystod y tymor yma rydym wedi cynnal stondinau gacennau. Maent wedi bod yn llwyddiannus iawn a charwn ddiolch i bawb sydd wedi bod wrthi'n coginio ac i'r rhai sydd wedi ein cefnogi drwy roi cyfraniad i goffrau'r cylch.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

GORFFENNAF

4 + 5 Cyngerdd Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yn Theatr Felinfach am 7y.h. Tocynnau ar werth o'r Theatr 01570 470697.
6 Lasio Llyfr Hanes Brondeifi yng Nghapel Brondeifi
6 Oedfa o Fawl yng Nghapel Shiloh Llambed am 7y.h. Elw tuag at Apêl Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.
11 Noson Goffi yn Frondolau, Pentrebach am 6y.h. Elw at Ymchwil y Cancr.
12 Mabolgampau Cwrtnewydd.
12 Sêl Cist Car 8y.b. – 1y.p. yng Nghlwb Rygbi Llambed. Elw tuag at Apêl Llambed o Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010.
13 Barbiciw Ysgol Sul Noddfa am 4.30y.p. yng Nghanolfan Cwmann.
14 Cyfarfod o Bwyllgor Apêl Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd am 7:30y.h.
14 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen yn yr ysgol i ddechrau am 4y.p. Twrnament Pêl-droed i blant.
17 Ffair Haf Ysgol Carreg Hirfaen yn Uned Coedmor am 6y.h.
19 Cneifio Llambed ar fferm Capeli. Elw'r diwrnod yn mynd i Uned Losgiadau Ysbyty Treforys, Abertawe.
9 Diwrnod Hwyl yng Nghartref Nyrsio Alltymynydd i ddathlu Canmlwyddiant yr adeilad.
26 Ffêt pentref Llanfair Clydogau.
29 C.Ff.I. Llanllwni yn cynnal 'It's a Knockout' yn y Belle Vue, Llanllwni am 7.30y.h.
30 C.Ff.I. Llanllwni yn cynnal Helfa Drysor - dechrau yn Neuadd yr Eglwys, Maesycrugiau am 6.30yh

AWST

3 C.Ff.I. Llanllwni yn cynnal Cymanfa Fodern yng Nghapel Nonni, Llanllwni am 8.00y.h. i ddathlu 65 mlynedd y clwb. Rhagor o fanylion 01559 384217.
8 Sioe Amaethyddol Llambed.
9 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
10 Pwyllgor y Pentref yn trefnu Diwrnod Hwyl ar gae Cwmann.
16 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Gorsgoch.
22 – 25 Penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun, Llambed.
25 Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni yn cynnal Sioe a Threialon Cŵn Defaid ar gaeau Abercwm, Llanllwni. Rhagor o fanylion 01559 384217.

MEDI

6 Sioe Llandysul.
8 Cyfarfod agoriadol Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r cylch – noson yng ngofal Janet y Llywydd.
13 Ffair Ram ar gae Pentref Cwmann
18 Noson Caws a Gwin – Festri Brondeifi. Elw tuag at Ymchwil Cancr.
20 Llew Du Llanybydder - Noson godi arian tuag at Ambiwlans Awyr Cymru a Multiple Sclerosis.
20 Lansio Llyfr, Dadorchuddio plac ac arddangosfa luniau Canmlwyddiant yn Ysgol Llanwnnen rhwng 2y.p. a 5y.p. a'r Cinio Dathlu am 7:30y.h. yng Ngwesty'r Grannell.
21 Cymanfa Ganu Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7y.h. Llywydd – Dr Dai Lloyd AC.
29 Cwrdd Diolchgarwch Capel Noddfa

HYDREF

3 Noson Moes a Phryn yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd dan nawdd Urdd y Benywod Capel y Bryn am 7:30y.h.
7 Pwyllgor Buddiannau Llanybydder am 7y.h. yn Ysgol Llanybydder.
8 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrhos gyda'r Parch Eirian Wyn Lewis am 7 o'r gloch.
10 Ocsiwn Addewidion yn Nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch. Elw tuag at Apêl Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen.
18 Cyngerdd Corau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Elw tuag at Bwyllgor Cerdd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

TACHWEDD

2 Cymanfa Ganu Bedyddwyr Glannau Teifi yng Nghapel Penybont Llandysul am 6y.h. Arweinydd: Sioned James, Caerdydd.

Rhifyn mis Medi yn y Siopau Medi 4ydd,
Erthyglau erbyn Awst 22ain, Newyddion erbyn Awst 26ain.

Bag Papurau Bro

am ddim i'r 200 aelod newydd cyntaf sy'n ymuno â Chlwb Clonc a thalu drwy archeb banc.

CEFNOGI CLONC 2008

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes er mwyn hawlio'ch bag siopa newydd am ddim.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of . . . . . .

Cangen / Branch . . . .

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o £5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name . . . . . .

Cyfeiriad Llawn / Address . . . . . .

. . . . . .

Rhif y cyfrif / Account no . . . . . .

Dyddiad / Date . . . ./. . ./08

Arwyddwyd / Signed . . . . . .

** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi**

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.
**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw: . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

CLWB CLONC Gorffennaf 2008

£25 rhif 374 : Mrs A. M. Rees, Frondes, Cwrtnewydd.
£25 rhif 115 : Mrs Elinor Edwards, Caemelyn, Llangeitho.
£20 rhif 392 : Merfyn Thomas, 10 Nantoer, Llanybydder.
£20 rhif 401: Mrs Dorothy Thomas, Hendrerhys, Llanarth.
£15 rhif 106 : Mrs Betty Davies, Bryncastell, Heol Llanfair.
£15 rhif 60: Merfyn Davies, Glennydd, Llanddewi Brefi.
£10 rhif 416: Mrs Valerie Thomas, Glasfryn, Maesycrugiau.
£10 rhif 21: Lena Daniel, Llys Barcud, Cellan.
£10 rhif 124: Rhian Twynog Evans, Llys y Coed, Cwmann.
£10 rhif 18 : Phyl Chapman, Bryngwyn, Ffordd y Gogledd.
£10 rhif 422 : John Warmington, Falkland, Heol-y-Bryn.
£10 rhif 237 : M. Elin Jones, Pencoed, Aberystwyth.

Llanbedr Pont Steffan

Disgyblion a rhieni Ysgol Ffynnonbedr wrthi'n garddio.

Ysgol Ffynnonbedr

Cynhaliwyd cystadleuaeth pêl-droed a rownderi ar ddydd Gwener Mehefin 13 yn Ysgol Ffynnonbedr rhwng ysgolion ardal Llambed. Roedd dau ar bymtheg tîm pêl-droed a phymtheg tîm yn chwarae rownderi yn y gystadleuaeth. Ar ddiwedd y dydd cipiodd Ffynnonbedr A y darian am y pêl-droed i ysgolion mawr gan ennill yn erbyn Tîm B Ffynnonbedr o dair gôl i ddim. Ysgol Cribyn a gipiodd y darian pêl-droed i ysgolion bach wedi iddynt guro Ysgol Llanwenog ar ôl cicio penalti o'r smotyn.

Enillodd Ffynnonbedr A y rownderi gogyfer â'r ysgolion mawr gan guro ysgol Carreg Hirfaen yn y gêm derfynol ac Ysgol Llanwnnen a fu'n llwyddiannus yn y rownderi gogyfer â'r ysgolion bach ei maint gan guro Llanybydder. Bu dros ddau gant o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn diwrnod llawn bwrlwm, hwyl a chystadlu brwd.

Bu dros ddeugain o ddisgyblion yr ysgol am wythnos breswyl yng Nghanolfan Gweithgareddau Allanol Pentywyn rhwng Mehefin yr unfed ar bymtheg a'r ugeinfed.

Mwynhaodd pawb y gweithgareddau amrywiol megis dringo, saethu, hwylio, corff fyrddio a cherdded mynyddoedd. Cawsant drip hefyd i gastell Penfro a disgo wedi dod yn ôl i'r ganolfan. Dychwelodd pawb i'r ysgol yn flinedig tu hwnt ond wedi elwa'n fawr o'u profiadau.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ymweliad Iolo Williams S4C â ni i agor ac enwi ein gardd wyllt a hynny ar brynhawn Gwener Gorffennaf 4ydd. Cynhaliwyd cystadleuaeth ymysg y plant i lunio enw i'r ardd a bydd Alec Page yn creu'r enw a enillodd mewn metel i'w roi uwchben y gât. Cawn fabolgampau'r ysgol i gychwyn y prynhawn yna'r Ffair Haf. I goroni'r cyfan daw Iolo atom. Mae croeso i chi ymuno â ni a chyfle i chi weld yr ardd.

Mawr yw'r gweithgarwch wedi bod gyda rhieni, plant, cymdogion, busnesau a'n staff yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd. Mae'n dyled yn fawr i Gadeirydd ein Llywodraethwyr sef y Cyng. Ivor Williams am ei gefnogaeth a'i frwdfrydedd ac i Wenna Davies a Wyn John fel aelodau o'n staff sydd wedi sicrhau ein bod yn bwrw'r maen i'r wal a'r prosiect yn cael ei gwblhau. Gan i ni dderbyn grant o bron £10,000 o'r Loteri i ddatblygu'r gwaith bydd cynrychiolaeth o'u cwmni nhw yno hefyd. Mawr hyderwn felly yr ymunwch â ni ac y chwyddwch ein coffrau'r un amser tra'n mwynhau cwmni Iolo. Gobeithiwn felly am dywydd braf!! Mae'r ardd organig wedi bod yn datblygu gyda ni yn ystod y Gwanwyn a phethau'n tyfu'n dda. Rydym yn cyd-weithio â 'Organic Fresh Food Company Ltd' ar y gwaith yma a daw Suzanne Rees o'r cwmni i'n cynorthwyo. Mae'r llysiau'n dechrau cyrraedd eu llawn dwf nawr ac rydym yn mynd i'w gwerthu i rieni a ffrindiau er mwyn codi arian i brynu rhagor i'r dyfodol.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod olaf tymor Merched Y Wawr Llanbed yn Festri Sheilo Nos Lun 9fed o Fehefin gydag Eryl yn dod i ddiwedd ei blwyddyn fel Llywydd. Canwyd cân y mudiad gyda Janet yn cyfeilio. Estynnodd Eryl groeso cynnes i bawb cyn mynd ymlaen i ddosbarthu papurau pleidleisio ar gyfer ethol pwyllgor newydd y tymor nesaf.

Darllenwyd y cofnodion a dymunodd Eryl wellhad buan i Mair Jones Maesyfelin sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar, hefyd i Gwyneth sydd dan anhwylder ar hyn o bryd; estynnodd bob dymuniad da i Rhiannon sydd yn disgwyl am lawdriniaeth. Diolchodd i Nel Williams a Beryl Davies am ymweld â thrigolion Hafan Deg. Fe aeth Eryl ymlaen i estyn croeso i un o'n aelodau sef Verina i'n diddanu mewn noson o donc a chân. Dywedodd am y cof cyntaf sydd ganddi o ganu'r emyn Iesu Tirion yng Nghapel Ffaldybrenin pan oedd yn blentyn ifanc iawn. Aeth Verina ymlaen i ddweud cymaint o foddhad oedd wedi ei gael yn canu emynau allan o Ganiedydd yr Ysgol Sul. Aeth ymlaen i ganu Cerdd Dant, roedd Verina wedi cystadlu llawer ar gerdd dant, ac roeddem yn gallu gweld dylanwad ei diweddar fam sef Mrs Ray Morgan yn amlwg. Bu Verina yn aelod o gôr Brethyn Cartref ac o hynny daeth tair o ferched o'r côr at ei gilydd a sefydlu grŵp Odlau'r Felin. Yna canodd Verina Calon Lân gyda phawb yn ymuno gyda hi. Cafwyd noson bleserus iawn yn ei chwmni yn canu ac ambell i gwis hefyd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Pat ac i'r merched te sef Irene, Beryl a Nansi.

Yn ddiweddar fe wnaeth saith aelod o'r gangen ymuno yn y "Ras am Fywyd" yn Aberystwyth. Fe wnaeth Eryl, Ann, Gwen, Elma, Llinos, Mary a Verina gwblhau'r cwrs a chael llawer o fwynhad trwy wneud hynny, ac fe lwyddwyd i godi swm sylweddol o arian at Ymchwil Y Cancr ac y maent yn ddiolchgar iawn i bawb a wnaeth eu noddi yn yr achos teilwng yma.

Trafodwyd materion a oedd yn codi o fewn y cofnodion a chyn gorffen ei thymor fel llywydd diolchodd Eryl i'w swyddogion am gydweithio gyda hi mor rhagorol ac i weddill y pwyllgor am eu hymroddiad, ac i'r aelodau oll am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd; aeth ymlaen i ddymuno'n dda i'n llywydd newydd sef Janet a'i phwyllgor newydd hithau i'r tymor nesaf ac fe wnaeth Janet gydnabod hynny drwy dalu teyrnged i Eryl ar ei blwyddyn hynod lwyddiannus.

Enillwyd y raffl fisol gan Nel Jones. Fe fyddwn yn ail dechrau ar ôl yr haf ym mis Medi - yr ail nos Lun o bob mis, estynnwn groeso twymgalon i unrhyw un sydd â diddordeb i ymaelodi.

Bedyddwyr

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol DRAN Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru yn y Tabernacl, Caerdydd Mehefin 16 – 18 ar y thema Yr Eglwys ar Waith! Braf oedd gweld rhai a chysylltiad agos â'r cylch yn cymryd rhan.

Y pregethwr gwadd yn oedfa'r cymun ar y bore Sul oedd y Parch Alwyn Daniels, Llywydd yr Undeb a gwasanaethwyd gan y Parch Ddr Hugh Mathews yn oedfa'r weinidogaeth ddydd Llun. Bu'r ddau, fel Gweinidogion ifanc yn eglwysi Bethel, Caersalem a Noddfa yn cyhoeddi'r Gair gydag argyhoeddiad.

Yn ystod misoedd olaf ei dymor fel Llywydd bu'r Parch Alwyn Daniels yn cerdded 126 o filltiroedd ar hyd arfordir Sir Benfro a hyd yn hyn mae dros £9,000 wedi ei gasglu tuag at achosion da. Diolchir iddo am ei gyfraniad clodwiw yn ystod y flwyddyn. Trosglwyddwyd y llywyddiaeth i ddwylo diogel Gwenallt Rees, diacon ffyddlon a gweithgar yn y Tabernacl, Caerdydd.

Nos Lun cafwyd cyfle i fwynhau cyflwyniad eglwys y Tabernacl sef 'Liner yr Efengyl' y sgript gan ei Gweinidog y Parch Danzil John a'r gerddoriaeth wreiddiol gan Euros Rhys Evans. Fel rhan o'r cyflwyniad cafwyd unawd swynol gan Mair Long, gynt o Lambed a hyfryd oedd gweld Steffan hefyd yn mwynhau canu ac adrodd gyda'r plant. Roedd y cyfan wedi ei wau yn gelfydd iawn i gyflwyno neges gyffrous a chyfoes fod cariad Duw ar waith a'r eglwys yn fyw – profiad gwefreiddiol oedd cael bod yn bresennol.

Adran ac Aelwyd yr Urdd

Llongyfarchiadau calonnog i Lowri Elen ar gipio'r ail wobr yng nghystadleuaeth llefaru a'r drydedd wobr yn yr unawd i flynyddoedd 5 a 6 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Conwy. Nid ar chwarae bach mae cyrraedd llwyfan y Genedlaethol ac mae gwneud hynny mewn dwy gystadleuaeth yn gamp eithriadol gan fod safon y cystadlu mor uchel. Derbyniodd Lowri Elen ganmoliaeth arbennig am ei pherfformiadau clodwiw.

Llongyfarchiadau hefyd i aelodau'r Aelwyd ar ddod yn ail yng nghystadleuaeth grŵp llefaru dan 15 oed gan dderbyn canmoliaeth uchel iawn am gyflwyniad disgybledig. Mae pawb yn yr ardal yn ymfalchïo yn llwyddiant Lowri Elen a'r parti - daethant â chlod ac anrhydedd nid yn unig i'r Adran a'r Aelwyd ond hefyd i'r dref.

Er na ddaeth llwyddiant i ran yr aelodau i gyd roedd pawb wedi rhoi o'u gorau ac wedi mwynhau eu hymweliad â Bae Penrhyn ger Llandudno er gwaetha'r tywydd anffafriol ar ddydd Mercher yr Ŵyl. Diolch yn fawr i'r plant a'r bobl ifanc am eu hymroddiad ac i'r rhieni am bob cefnogaeth. Dymuna'r aelodau ddatgan eu gwerthfawrogiad i Elin a Rhiannon am roi o'u hamser i'w hyfforddi ac i Janet am ei chymorth hithau.

Llongyfarchiadau i Rhiannon ar ei sylwebaeth raenus o'r Eisteddfod ar Radio Cymru yn ystod yr wythnos. Bu Tomos Rhys a Hannah Timmis yn cynrychioli'r Adran mewn cwis hwyl ym mhabell S4C ar y maes. Hefyd yn cymryd rhan roedd Adran Maenclochog a Phenrhyndeudraeth ond ar ddiwedd y cwis tîm Llambed oedd ymhell ar y blaen. Derbyniasant becyn o nwyddau'r un ynghyd a chyfraniad ariannol hael i'r Adran a chawsant sgwrs â Meleri ar gyfer rhaglen "Planed Plant" ar S4C. Da iawn chi. Erys atgofion hapus am Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy.

Profiad gwefreiddiol i Lowri Elen a'r grŵp llefaru oedd rhannu llwyfan gyda neb llai na Catrin

Llanbedr Pont Steffan

Finch, yn delynores ifanc ddisglair mewn cyngerdd arbennig ym Mhafiliwn Bont gydag aelodau eraill llwyddiannus Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd nos Sul, 22 Mehefin.

Roedd safon enillwyr Ceredigion yn rhyfeddol o uchel a datganiadau Catrin Finch yn goron ar y cyfan. Cyflwynwyd amrywiaeth anhygoel o eitemau yn cynnwys unawdau lleisiol ac offerynnol, llefaru, dawnsio gwerin a disgo, cân actol, datganiadau corawl a llawer mwy. Llywiwyd y noson yn fedrus iawn gan ddau gyflwynydd ifanc a'u gwreiddiau yn y sir sef Dylan Ebenezer (BBC) ac Ifan Jones Evans (Mosgito / S4C). Braf oedd cael bod yn bresennol i fwynhau ac i werthfawrogi cyfraniad doniau disglair yr Urdd ar noson fythgofiadwy i'r mudiad.

M.S

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth ynghyd i rannu cacen yn ddiweddar yn Neuadd Eglwys Sant Pedr. Codwyd £322. 25 i'r Gymdeithas M.S.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Kiri Douglas, Bryn Rhosyn, Barley Mow am basio Gradd 3 gyda chlod gan gael marciau llawn yn y theori.

Llongyfarchiadau hefyd i Meirion Thomas, Tremallt, Rhodfa Glynhebog am basio Gradd 2 gydag anrhydedd gan gael marciau llawn yn y theori. Roedd y ddau yn gwneud arholiadau o dan nawdd Coleg Gerdd Llundain.

Rhaid llongyfarch brawd Meirion hefyd, sef Llion Thomas, Tremallt am basio Gradd 4 ar y ffidil yn ddiweddar gyda chlod. Da iawn ti.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Noddfa

Cynhaliwyd oedfa gymun yn Noddfa a'n Gweinidog y Parch Jill Tomos yn gwasanaethu a chafwyd ganddi neges bwrpasol a gafaelgar. Soniodd ei bod wedi ymweld â Mary Evans yng Nghartref Min y Môr yn Aberaeron ac mae wedi setlo lawr yn dda yno. Llongyfarchodd Lowri Elen, un o aelodau'r Ysgol Sul ar ei llwyddiant mawr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r bobl ifanc oedd yn rhan o grŵp llefaru llwyddiannus yr Aelwyd. Hefyd llongyfarchwyd Janet ar ei chyflwyniad hynod raenus ar raglen Caniadaeth y Cysegr ar Radio Cymru yn ddiweddar.

Cyfeiriodd John Morgan at gyfweliad y Parch Jill Tomos ar derfyn ei thymor "prawf" fel Gweinidog. Wedi gwrando ar ei hatebion a'r dystiolaeth aruchel sydd i'w gweithgaredd cydwybodol, roedd aelodau pwyllgor y Weinidogaeth Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion yn unfrydol yn cymeradwyo bod Bwrdd y Weinidogaeth yn gosod ei henw ar restr Gweinidogion cydnabyddedig ein henwad, gan gwbl gredu bod didwylledd ei phersonoliaeth a'i ymroad cydwybodol yn gaffaeliad i eglwysi ei gofal ac yn fodd i ddyrchafu'r Crist yn ei galwedigaeth. Cytunai pawb eu bod yn ffodus i'w chael yn Weinidog ymroddedig yn y Gymanfa. Llongyfarchwyd hi'n gynnes iawn gan John ar ran yr eglwysi a diolchodd iddi am ei gwasanaeth. Hefyd cyfeiriodd John at erthygl swmpus yn y "Western Mail" yn rhoi canmoliaeth uchel i'r gyfrol "Travels of a Welsh Preacher "" a gyfieithwyd gan Margaret ein hysgrifennydd.

Wrth fwrdd y cymun cydymdeimlodd ein Gweinidog yn ddiffuant â John Elfyn Jones a'r teulu ar farwolaeth ei fam a hynny ond ychydig fisoedd ar ôl colli ei dad.

Cynhelir oedfa gymun nos Sul 6 Gorffennaf am 5 o'r gloch yn Noddfa ac nid am 6 oherwydd y Gymanfa Ganu yn Shiloh am 7 wedi ei threfnu gan Twynog Davies i godi arian at apêl Llambed Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010. Bydd yr Ysgol Sul fel arfer am 10.30 y bore.

Cynhelir barbiciw'r Ysgol Sul yng Nghanolfan Cymuned Cwmann ar Sul 13 Gorffennaf. Croeso i blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul a'u teuluoedd ynghyd ag aelodau Bethel, Caersalem a Noddfa a'u teuluoedd - enwau i Janet neu Llinos os gwelwch yn dda erbyn 9 Gorffennaf. Edrychwn ymlaen at noson o wledda ac o gymdeithasu. Dewch yn llu.

Senana

Cynhaliwyd cyfarfod Senana Bedyddwyr cylch Llambed ac Aberduar yng Nghaersalem, Parcyrhos. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs. Myfanwy Bryce a'r Parch Jill Tomos. Mrs Janet Evans oedd wrth yr organ. Y wraig wadd oedd Mrs. Rosemary Morgan o Benybont yr Ogwr. Mae Rosemary wedi bod allan yn Mharagwai fel aelod o'r B.M.S yn gweithio gyda grwpiau Pepe sef prosiect addysgiadol sy'n cael ei redeg gan eglwysi Bedyddiedig yn darparu ar gyfer plant rhwng 4 a 6 oed. Ariannwyd y fenter gan eglwys Hope Penybont ar Ogwr ynghyd â theulu a ffrindiau Rosemary.

Cawsom hanes y daith ar ffurf sleidiau a dyna braf oedd gweld wynebau rhai o'r plant yn gweithio gyda phapur, paent a phensiliau am y tro cyntaf yn y wlad dlawd yna. Gwnaeth i ni gyd ystyried anghyfartaledd cyfoeth y byd. Dyna braf oedd gweld Rosemary wedi gwisgo mewn gwisg draddodiadol Paragwai sef coch, glas a gwyn yn union fel baner y wlad. Noson a erys yn y cof am hir amser oedd hon. Croesawyd pawb i wledd oedd wedi ei pharatoi gan wragedd Caersalem ar ôl yr Oedfa. Diolchodd y Parch Jill Tomos iddynt am eu croeso.

Plant ac athrawon, Enyd Henaghan a Heini Thomas, yn cyflwyno siec o £573.15 a godwyd ganddynt drwy nifer o wethgareddau, i Phil Thomas, Tŷ Hafan yng nghwrdd y plant yng Nghapel Brondeifi.

Eisteddfod Pantyfedwen

Cynhelir Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan yn ôl yr arfer ar benwythnos Gŵyl Banc Awst, sef 22 - 25 o'r mis. Mae'r pwyllgor gwaith wedi cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn ac mae'r paratoadau yn mynd yn eu blaen yn hwylus iawn. Mae artistiaid ifanc o fri wedi cytuno i gymryd rhan yn y cyngerdd agoriadol nos Wener, sef Côr Ger y Lli o Aberystwyth dan arweiniad Gregory Roberts, Dawnswyr Talog a'r perfformiwr disglair Steffan Rhys Hughes. Mae'r artistiaid i gyd wedi profi llwyddiant mawr ar lwyfannau ein Gwyliau Cenedlaethol gyda Steffan yn cipio 6 cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Conwy eleni. Arweinydd y noson yw Dylan Lewis, cadeirydd gweithgar Clonc a'r llywydd yw Eleri Twynog, un o blant y fro.

Edrychwn ymlaen at wledd arbennig o ddiwylliant Cymraeg ar ei orau.

Byddai'n braf gweld mwy o bobl ifanc yn cynnig eu gwasanaeth yn ystod y penwythnos. Os oes ychydig o oriau gennych yn rhydd bydd y pwyllgor gwaith yn falch iawn o'ch cymorth. Ceir cyfle i Stiwardio yn y rhagbrofion, wrth y drysau, yn yr arddangosfa gelf a chrefft ac yn y blaen. Pawb sydd â diddordeb i gysylltu â Dorian yr ysgrifennydd neu Janet y Cadeirydd os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogir eich cefnogaeth yn fawr iawn.

Diolch

Dymuna Nesta Harries, 4 Y Dderi ddiolch o galon i bawb am y cardiau, anrhegion, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd wedi'r ddamwain. Diolch hefyd i'r llu ffrindiau alwodd heibio gatre ac yn yr ysbyty.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau cynnes i Beryl Davies, un o aelodau dawnus Noddfa ar ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Maenclochog am gyfansoddi emyn. Nid dyma'r tro cyntaf i Beryl gyflawni'r gamp yma - mae wedi cipio nifer o wobrau mewn eisteddfodau ar hyd a lled Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Daliwch ati Beryl gyda'r gwaith ardderchog. Ceir darluniau hyfryd a chelfydd o fyd natur yn yr emyn ac mae'n werth ei rannu â darllenwyr Clonc.

Nid yw Beryl a'i phriod Jos yn mwynhau'r iechyd gorau ar hyn o bryd. Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r ddau am wellhad buan.

Prydferthwch Natur

Diolch am y ddawn O! Arglwydd
I ryfeddu at dy waith,
Ac am lygaid iach i sylwi;
A mwynhau golygfa'r daith.

Y mae gweld prydferthwch natur
Yn ein tynnu atat Ti,
I glodfori a rhoi moliant
Iti Dduw – ei hawdur hi.

Holl ysblander hon sy'n taeru,
Gyda'r cyffro ynddi sydd,
Am ddwy law fu'n ei harlunio –
Mae yn oriel nos a dydd.

Fe wna'r blodau tlws amryliw,
Côr y llwyn a'r werddon hardd
Gread Duw, heb ddyn i'w lygru,
Unwaith eto'n Eden ardd.

Canu'n hapus mae'r aderyn,
Gwenu'n braf mae'r blodyn cain.
Trwy dy ras perffeithier ninnau
I gael bod yn hardd, fel rhain.

Beryl Davies, Llanddewi Brefi

Llanbedr P S

Gyrfa Chwist

Ar Nos Fercher y 28ain o Fai cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Dynion - 1af - Tom Davies, Pen y Bryn, Llambed, 2il - Dan Johnes, Aberaeron, 3ydd - Ifan John Jones, Brohenllys, Felinfach, Merched - 1af - Ifan Jones, Aberarth, Cydradd 2il - Gwenda Davies, Brohenllys, Felinfach a Rita Griffiths, Rhydcymerau, Sgôr Isaf - Dynion - Edward Lockyer, Llambed, Merched - Eirwen Thomas, Pontsian, Bwrw allan - Enillwyr - Dan Jones a Rita Griffiths, Ail - Magw Evans, Pontsian a Nanna Davies, Stryd Newydd Llambed.

Ar Nos Fercher yr 11eg o Fehefin cynhaliwyd un arall gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain unwaith eto. Dynion - 1af - Gwendoline Jones, Llanybydder, 2il - Ray Jenkins, Llanybydder, 3ydd - Edward Lockyer, Llambed, Merched - 1af - Nancy Davies, Heol y Goedwig, Llambed, Cydradd 2il - Harry Williams, Ystrad Aeron, Felinfach a Mary Davies, Cwmsychpant, Sgôr Isaf - Dynion - Mary Jones, Llambed, Merched - Catherine Morgans, Llambed, Bwrw Allan - Enillwyr - Gwendoline Jones a Margret Davies, Penbryn, Llambed, Ail - Mary Davies a Mary Jones, Diolch i bawb am eu cefnogaeth oddi wrth y trefnydd Mrs Gwen Davies, Llanwnnen.

Derbyn i'r Orsedd

Cyhoeddwyd y bydd Janet Evans, Haulfryn, Llambed (gohebydd trylwyr Llambed i Clonc) yn cael ei hurddo i'r wisg wen yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ym mis Awst. Llongyfarchiadau gwresog Janet.

Cymdeithas Hanes Llambed

Cafwyd noson wahanol i'r arfer yng nghyfarfod mis Mehefin. Daeth yr aelodau ynghyd i'r Ganolfan Adnoddau, ond mae'n siŵr fod y tywydd wedi amharu ar y nifer a drodd allan y tro hwn. Roedd y noson ar ffurf cwis wedi ei baratoi gan Jen Cairns. Cwis o 'Adnabod y Mannau', wedi ei rhannu yn gategorïau, megis adeiladau cyffredinol; mynediadau; Capeli; cerrig ac ati; a ffenestri.

Bu cryn grafu pennau ynghylch nifer o'r mannau,- yn siŵr ein bod yn adnabod y llefydd, - ond ymhle roedden nhw !!?? Mae'n dangos ein bod yn mynd o gwmpas yn gweld, ond heb sylwi digon. Diolch yn fawr i Jen am baratoi'r noson,- roedd wedi golygu llawer iawn o waith, ond wir i chi, roedd pawb wedi mwynhau'r noson yn fawr iawn.

Roedd aelodau'r pwyllgor llywio wedi trefnu ychydig luniaeth hefyd, felly roedd yn noson gymdeithasol ym mhob ystyr. Ym mis Gorffennaf, trefnir ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Cellan

Pen-blwydd

Pen blwydd hapus iawn i Mrs Betty Green, Carterf ar gyrraedd ei phedwar ugain oed. Llongyfarchiadau mawr iddi a phob hwyl gyda'r dathlu.

Gwellhad

Gwellhad buan iawn i Bleddyn Williams, Cnwcyfallen wedi iddo dorri ei fraich yn ddiweddar.

Y Neuadd

Braf yw gweld y maes parcio yn Neuadd y Mileniwm ar ei newydd wedd ac wedi ei dacluso.

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth sydyn Mr Frank Rutlige, Gelli. Estynnwn ein cydymdeimlad â'i wraig Mary a'i deulu.

Babi newydd

Ganwyd Rhys Harrhy ar ddydd Gwener y 13eg o Fehefin i Meinir a Dyfed, Rhydfechan. Croeso cynnes iddo!

Cwmsychpant

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Ceiron Jenkins, Brynmeddyg ar basio ei brawf gyrru'n ddiweddar. Cymer pob gofal ar yr hewl!!!!!

Capel y Cwm

Yn ystod mis Mehefin cynhaliwyd Cwrdd Pawb Ynghyd yng Nghapel y Cwm o dan arweiniad ein gweinidog Parch Wyn Thomas. Cafwyd oedfa fendithiol fel arfer ac hyfryd oedd gweld cynifer wedi teithio cryn bellter i fod yn bresennol. Hyfryd oedd cael presenoldeb y plant yn yr oedfa hefyd ac mae'n bleser gweld rhain ar bob achlysur - gan mae'r rhain yw ein dyfodol. Yn gwasanaethu wrth yr organ oedd Mrs Eleri Jenkins, Bryngolau ac roedd casgliad y prynhawn yn mynd i helpu Capel Gellionnen ger Abertawe a gafodd ei ddifrodi gan fandaliaid yn ystod mis Mawrth eleni. Os ydych am gyfrannu eto i'r apêl ewch a'ch cyfraniadau i Mrs Mary Jones, Penrheol yn y dyddiau nesaf.

Diolch

Dymuna Carys Davies, Y Cartws, Rhydowen ddiolch yn fawr i bawb am y llu o gardiau a rhoddion a dderbyniodd yn ystod achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ym mis Mai.

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Llanybydder

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Meinir Thomas, Gwargraig ar ennill gwobr Rheolwr Technegol y flwyddyn cwmni Sainsbury's. Mae Meinir yn gyn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llanybydder ac Ysgol Gyfun Llambed cyn iddi fynd ymlaen i ennill gradd BSc yng Ngholeg Harper Adams yn swydd Amwythig. Mae yn gweithio fel Rheolwr Technegol gyda chwmni Dunbia yn Llanybydder. Da gweld ein pobl ifanc yn ennill gwobrau ar lefel Brydeinig.

Cartref Alltymynydd

Fe fydd Cartref Nyrsio Alltymynydd yn dathlu Canmlwyddiant yr adeilad ar Orffennaf 19fed. Fe fyddwn yn cynnal Diwrnod Hwyl i ddathlu, yn cynnwys dathliad o ofal nyrsio dros y ganrif ddiwethaf yn cynnwys gwisgoedd, tynnu'r gelyn, arddangosfa gŵn, arddangosfa gan geffylau a cheirt, stondinau, Côr Cwmann, bar, disco a llawer mwy. Croeso i bawb yn arbennig cyn weithwyr a chleifion. Os oes gan unrhyw un hen luniau neu wybodaeth

fe fyddwn yn falch iawn o glywed gennych. Cysylltwch ag Alltymynydd ar 01570 480208.

Diolch

Dymuna Mrs Janet Short, 78 Bro Einon ddiolch am y cardiau, blodau a'r caredigrwydd a dderbyniodd adeg marwolaeth ei mab Simon. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Pen blwydd Arbennig

Pen blwydd Hapus i Wil Wern, 21 Heol-y-Gaer a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 90 oed Orffennaf 17eg.

Dawns a Swper

Ar nos Wener yr 16eg o Fai cynhaliwyd Dawns a Swper yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen. Roedd yn noson lwyddiannus iawn a danfonwyd £1362 i Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch i bawb oedd yn bresennol ac i'r rhai a gyfrannodd, oddi wrth Mrs Val Davies, Dwylan.

Noson Goffi

Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus yn Neuadd yr Eglwys ar y 9fed o Fai dan nawdd Pwyllgor Buddiannau'r Henoed. Agorwyd y noson trwy anerchiad pwrpasol gan Mr Robert Howells, Pennaeth Ysgol Llanybydder a gyfrannodd yn hael iawn at y coffrau. I ddiddanu'r gynulleidfa cafwyd eitemau gan blant Ysgol Llanybydder a Chôr Lleisiau'r Werin. Gwerthfawrogodd y pwyllgor chi i gyd. Arwerthwyd y nwyddau o'r stondinau yn gyflym. Derbyniwyd llawer o wobrau i'r raffl. Dymuniad y pwyllgor yw diolch i bawb am bob cyfraniad ac i bawb a fu'n gweithio i sicrhau llwyddiant y noson. Bydd y pwyllgor nesaf ar 7fed o Hydref am 7y.h. yn yr ysgol.

Ennill Gradd

Llongyfarchiadau i Cerys Jones, Gorlan, Llanybydder ar ennill gradd dosbarth 1af ym Mathemateg a Daearyddiaeth o Brifysgol Aberystwyth.

Tomos Rhys Evans, 8 oed, Glantrenfach a enillodd "Pencampwr trafod defaid yn Sioe Aberystwyth."

Gorsgoch

Gwellhad Buan

Hoffwn ddymuno gwellhad buan i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gog a Sue Jones, Meinigwynion Mawr ar ôl eu llawdriniaethau yn ddiweddar. Gobeithio gweld y ddwy ohonoch yn holliach yn fuan ac yn medru bod yn bresennol yng ngwahanol ddigwyddiadau'r haf.

Diolch

Dymuna Ceinwen a Dorian, Llys Gwenog ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, anrhegion a dymuniadau gorau ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Diolch hefyd am y croeso cynnes i'w cartref newydd. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn. Diolch.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Cennydd gynt o Meinigwynion Bach a'i bartner Claire ar enedigaeth bachgen bach yn ddiweddar. Croeso cynnes iawn i Dion John. Croeso cynnes hefyd iddynt i'w cartref newydd yn Esgairlydan. Pob iechyd ac hapusrwydd i'r tri ohonoch.

Neuadd Gorsgoch

Mae'r gwaith o gynllunio ac ymgeisio am wahanol grantiau yn mynd yn eu blaen. Rydym fel pwyllgor neuadd y pentref yn paratoi arddangosfa o hanes y neuadd. Hoffwn erfyn ar ddarllenwyr CLONC i chwilio yn eu droriau am hen luniau, hen doriadau o bapurau newydd, dogfennau neu unrhyw beth arall sy'n addas i'r arddangosfa. Gobeithiwn ddangos yr arddangosfa yma ar ddiwrnod ein sioe yng Nglwydwern. Dewch â'ch lluniau a.y.b. mor fuan â phosib i Gefn Hafod a gwneir copïau ar unwaith a'u dychwelyd i chi'n syth. Ni bydd rhaid i chi adael eich lluniau gwerthfawr o'ch gafael. Diolch.

Pencarreg

Gwellhad Buan

Yn dilyn anffawd cafodd Non Evans, Blaencarreg lawdriniaeth yn Ysbyty Treforys. Dymunwn adferiad buan i chi Non.

Babanod

Wel, mae'r aderyn rhyfeddol hwnnw sef y storc wedi bod yn brysur iawn yn ymweld â nifer o gartrefi yn yr ardal yn ddiweddar.

Ymhlith y babanod a anwyd oedd Steffan, mab bychan i Ann a David Davies, Coed y Llyn, brawd bach i Cerys ac ŵyr arall i Glenys a Herbert Morgans, Rhydowen. Ond nid yw'r dathlu wedi darfod yn Rhydowen, oherwydd ganwyd mab bychan i Alan a Lisa Morgans sef Mathew ŵyr eto i Glenys a Herbert.

Hefyd rhaid llongyfarch Arwel ac Emma Jones, Derlwyn ar enedigaeth eu merch fach hwy hefyd, sef Gwenan, wyres fach gyntaf i Gillian a Gruffudd John.

Llongyfarchiadau i chwi gyd a phob llawenydd am y dyfodol yng nghwmni eich plantos bach.

Dathlu Deugain

Llongyfarchiadau i Emyr Jacobs, Frondeg ar ei ben-blwydd yn ddeugain oed. Mae'n debyg bod anrhegion diri wedi cyrraedd Frondeg. Oes rhyfedd ac Emyr y fath dderyn ac mor boblogaidd gan bawb.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Meleri Mair Thomas, Dolgwm Uchaf ar ei phenodi yn athrawes y pynciau Cymraeg a Chelf yng Ngholeg Llanymddyfri. Mae Meleri yn edrych ymlaen yn eiddgar i gychwyn ar ei swydd ym mis Medi yn dilyn ei chyfnod hapus a diddorol fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Maes-yr-Yrfa, Cefneithin. Pob llwyddiant am y dyfodol Meleri.

Diolch

Dymuna Emyr Jacobs ddiolch o waelod calon am y llu cardiau, anrhegion a phob dymuniad da wrth iddo ddathlu'r deugain.

Hefyd, dymuna Meleri Dolgwm Uchaf ddiolch am y cardiau a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd yn dilyn ei phenodiad fel athrawes yng Ngholeg Llanymddyfri.

Silian

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Delyth Evans, Tangraig am basio Gradd 2 gyda chlod o dan nawdd Coleg Cerdd Llundain yn ddiweddar. Cafodd Delyth farciau llawn yn y theori.

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Lle aeth pawb?

Dosbarth Miss Evans yn Ysgol Coedmor nôl yn y 1950au gyda'r prifathro y diweddar B J Jones. Fedrwch chi enwi'r disgyblion – llawer ohonynt dal yn byw yn yr ardal. Enwau ar gerdyn post i'r golygydd neu ar e-bost golygydd@clonc.co.uk os gwelwch yn dda.

Os oes gennych chi hen lun o ddiddordeb i ddarllewnwyr Clonc, danfonwch ef at y golygydd gyda'r manylion. Gallwn sganio'r llun a'i ddychwelyd atoch yn syth.

Colofn yr Urdd

Gwerthu nwyddau 2010 yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

Cwrs canu a dawnsio yr Urdd

Caiff sêr llwyfan a sgrin y dyfodol y cyfle i ddysgu sgiliau newydd yr haf hwn mewn cwrs wythnos o hyd.

Nod BANG! yw helpu plant i feithrin eu talent ym meysydd canu, dawnsio a drama yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

Cânt eu dysgu gan rai o athrawon mwyaf blaenllaw Cymru a chânt weld sioe gerdd deithiol y West End sef Chitty Chitty Bang Bang, sy'n cynnwys Aled Jones ac Ian 'H' Watkins, yn y Ganolfan.

Bydd y perfformwyr ifanc yn aros yng Nghanolfan yr Urdd sydd y tu mewn i Ganolfan Mileniwm Cymru – a hefyd cânt y cyfle i berfformio ar Lwyfan Tesco'r Ganolfan ar ddiwedd y cwrs. Mae digwyddiad BANG! yn agored i blant o 10 i 15 oed o bob gallu. Mae dau gwrs wythnos ar gael: un yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg.

Mae lle i 60 o blant ar bob cwrs a'r gost yw £225 am wythnos, gan gynnwys pob pryd bwyd a thocyn i weld Chitty Chitty Bang Bang. Mae'r cwrs yn Gymraeg yn rhedeg o 24 i 29 Awst; mae'r cwrs yn Saesneg yn rhedeg o 17 i 22 Awst.

I archebu lle, cysylltwch â'r Urdd ar 02920 635678 ac ewch i wefan Canolfan y Mileniwm: www.wmc.org.uk/bang

Diolch - Dymuna Mr Gwilym Davies, Yr Hendre, Drefach, a'i deulu, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad dderbyniwyd wedi colli Glyn yn ddiweddar. Derbyniwyd £1000 yn lle blodau, a throsglwyddwyd dwy siec o £500 yr un i Marie Curie a Ffagl Gobaith, mewn gwerthfawrogiad am y gofal dderbyniwyd ganddynt.

Noson o Hwyl
Gyda Phwyllgor Ieuenctid Sioe Amaethyddol Llambed
Ras Peli a Barbiciw
(Prif Wobr £30)
Yng Nghwmni'r Enwog
"Bois Y Wlad"
Yng Nghlwb Rygbi Llambed
Nos Wener Gorffennaf 11eg
I ddechrau am 7 yh
Mynediad £4
Am docynnau cysylltwch â
Dafydd Mills: 07866742255
neu
Hadi Davies: 07971646290

CASGLWCH a THALWCH
am eich
MEFUS ORGANIG
ym Maes Yr Onnen,
Drefach, Llanwenog
ar yr A475
£3.30 y cilo
Agor 10y.b. – 8y.h.
7 diwrnod yr wythnos
Ffôn: 01570 480785
Hefyd Siop Fferm Organig am lysiau a ffrwythau tymhorol.

YSGOL GYNRADD FFYNNONBEDR
FFAIR HAF
Dydd Gwener Goffennaf 4ydd
3 o'r gloch
DEWCH I GWRDD Â IOLO WILLIAMS
a fydd yn agor yr ardd wyllt yn swyddogol
(Bydd yr achlysur yn cael ei recordio ar gyfer "WEDI 7" S4C)
Croeso cynnes i bawb

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal, yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell
Llanwnnen

Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyo ar gyfer pob achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones

Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Sarn Helen

Daeth 101 of rhedwyr i Ras y Llychau. Ras 5K ac yn cael ei noddi gan D L Williams o Dalyllychau a Llambed. Michael Kallenberg o Ingli runners ennillodd y ras, mewn amser 17 munud. Ac yn cael cyntaf yn y category ieuanc, 2il Gethin Jenkins Sarn Helen 19.52, 3ydd Rhys Evans Sarn Helen 22.49. 1af dynion agored Andrew Abbott Sarn Helen 17.36, 2il Michael Davies Sarn Helen 17.58, 3ydd Gareth Elliott Pembrokeshire Harriers 18.57. Dynion Vet 1af Glyn Price Sarn Helen 17.26, 2il Les Hewitson Ingli Runners 17.53, 3ydd Mark Dunscombe Sarn Helen, 19.07. Sarn Helen enillodd y tîm.

Merched Ieuanc 1af Jade Williams Amman Valley Harriers 19.10, 2il Kari O'Neill Carmarthen Harriers 22.30, 3ydd Elin Evans Amman Valley Harriers 23.05. Menywod agored 1af Tasha Sexton Ingli Runners 19.31, 2il Natalie Jones Amman Valley Harriers 24.45, 3ydd Caryl Davies Sarn Helen 25.38. Menywod Vet 1af Shan Roberts Ingli Runners 20.03, 2il Lynn Green Ingli Runners 20.54, 3ydd Sue Lloyd Pembrokeshire Harriers 25.10.

Yn ras y plant 1af Christian Lovatt Carmarthen Harriers 6.28, 2il Joseff Lewis Carmarthen Harriers 6.51, 3ydd Aled Phillips Amman Valley Harriers 7.21. Merched, 1af Lucy Jones Amman Valley Harriers 7.01, 2il Ffion Jenkins Amman Valley Harriers 7.59 and 3ydd Phoebe Davies 8.00.

Enillodd Calvin Williams ei ras i ddynion 40 yn Dinas Head a Lyn Rees yn cael yr ail wobr i ddynion 50. Glyn Price yn ennill gwobr gyntaf yn Llys y Fran.

Uchafbwynt y clwb mis Mehefin oedd ras gyfnewid cestyll Cymru. Ras o ddau gant ac unarddeg o filltiroedd, ac yn dechrau fore Sadwrn o gastell Caernarfon, ac i lawr drwy ganolbarth Cymru ac yn gorffen prynhawn Sul yng nghastell Caerdydd. Mae ugain o gymalau rhwng 8 a 14 o filltiroedd ac yn mynd heibio llawer o gestyll Cymru. Roedd 10 cymalau dydd Sadwrn a 10 dydd Sul. 59 o glybiau yn cystadlu llawer o Gymru, Lloegr a Denmarc.

Enillodd Carwyn Thomas yr ail gymal o Benygores i Gastell Criccieth mewn amser da o un awr ac un eiliad, ac roedd yn ôl o ddwy funud ac unarddeg eiliad cyn daeth yr ail redwr i mewn.

Lyn Rees ddechreuodd y cymal cyntaf o Gaernarfon i Benygroes. 9.1 o filltiroedd mewn amser 1awr 10 munud a 33 eiliadau. 2il cymal Carwyn Thomas 1:awr 1 eiliad. 3ydd cymal Mark Dunscombe1 awr 20 munud 34 eiliadau, 4ydd cymal Caryl Davies 1 awr 16 munud 47 eiliad, 5ed cymal Huw Rowcliff 1awr 13 munud 45 eiliadau, 6ed cymal Gethin Jenkins 1 awr 20 munud 43 eiliadau, 7fed cymal Andrew Abbot 1 awr 2 munud 38 eiliadau, 8fed cymal Calvin Williams 1 awr 23 munud 4 eiliad, 9fed cymal Sian Jenkins 1 awr 26 munud a Haydn Lloyd oedd yn gorffen ras y dydd o hanner marathon i'r Drenewydd mewn 1 awr 38 munud a 49 eiliadau.

Noson o gwsg yn Drenewydd, a Jamie Thomas yn dechrau yn fore iawn am 7 o'r gloch i Lanbadarn Fynydd. 12.3 o filltiroedd ac yn cyrraedd mew amser o 1 awr 30 munud a 5 eiliad, 12fed cymal Peter Davies 1awr 16 munud 19 eiliadau 13eg cymal Andrew Edgell 1awr 21munud 1 eiliad, 14eg cymal Glyn Price 1awr 11 munud 26 eiliadau 15fed cymal Richard Marks 1awr 23 munud 51 eiliadau, 16eg cymal Michael Davies 55 munud 44 eiliadau, 17eg cymal Dawn Kenwright 1awr 1 munud 15 eiliadau, 18fed cymal Janet Jones 1awr 18 munud 24 eiliadau, 19eg cymal Gareth Jones 1awr 32 munud 11 eiliadau. Cymal 20 a Eric Rees oedd yn gorffen y cymal 10.4 o filltiroedd, o gastell Caerffili i gastell Caerdydd. Eric yn gorffen mewn 1 awr 14 munud a 4 eiliad.

Ar ddiwedd y prynhawn Clwb Les Croupiers o Gaerdydd oedd ar y brig, a ddaeth clwb Sarn Helen yn safle 32 mewn amser o 25 awr 37 munud a 24 eiliadau.

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann

13eg Medi 2008

Llywydd: Mrs Ann Douch, Maestroeddin Fawr, Pumsaint

Sioe, Cystadlaethau CFfI, Arddangosfa Adar Ysglyfaethus, Gwartheg Ucheldir a Defaid Prin, taflu welington ac atyniadau eraill.

Arddangosfa Hen Beiriannau

Defaid a nwyddau i fewn rhwng 10 a 11.30 y bore. Beirniadu yn dechrau am 12 o'r gloch.

Ysgrifenyddion:
Danny Davies 423692
Eiddig Jones 422655

Apêl Llambed a'r Fro
Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010

Cymanfa Ganu

yn Eglwys Shiloh Llambed

Nos Sul Gorffennaf 6

am 7 o'r gloch.

Arweinydd: Twynog Davies, Eirwen Davies wrth yr organ. Gyda Chôr Merched Côrisma, Côr Meibion Cwmann a'r Cylch a Merched Malog.

Rhaglenni ar werth gan aelodau Eglwys Shiloh neu yn Siop Caxton, pris: £4.

Recordir y Gymanfa gan gwmni Andante ar gyfer rhaglen Caniadaeth y Cysegr Radio Cymru.

Cwmann

Clwb 225 Mis Mehefin

1. 194, Dafydd Lewis, Pantmeiniog, Cwmann, 2. 105, Edwin Harries, 8 Nant y Glyn 3. 150, Miss. Woodgate, Y Bryn, Parcyrhos, Cwmann, 4. 157, Mrs. Wilson, Lock & Key, Cwmann, 5. 22, Audrey Bonner, 9, Heol y Bont, Llanybydder, 6. 61, Mrs. Joy Beeher, Glyn Du, Parcyrhos, Cwmann, 7. 170, Mr. Alyn Roberts, Penybryn, Llambed, 8. 236, Mr & Mrs Ramaya, Esgair, Cwmann, 9. 27, Edwin Harries, 8 Nant-y-Glyn, Cwmann, 10. 226, Mrs Eirwen Davies,

Clwb 170 Mehefin

1. Cai Luker, Streherbert, Cwmann, 102, 2. Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni, 21, 3. Julian Evans, Dan-y-Wenallt, Llanbed, 113, 4. Mrs Glenys Harrison, Ty-Hir, Llanbed, 59, 5. Mrs Dilys Godfrey, 41 Heol Hathren, Cwmann, 81, 6. Mrs Jean Davies, 2 Heol y Maes, Pencarreg, 58, 7. Mrs Heledd Johnes, Penrhos, Cwmann, 104, 8. Mr Irfon Williams, Bryneiddig, Cwmann, 116, 9. Mrs Beryl Doyle, Caradog-View, Cwmann, 20, 10. Mrs Audrey Bonner, Bridge St, Lampeter, 6.

Eglwys Sant Iago

Cynhaliwyd Te Mefus tuag yn Eglwys Sant Iago ar brynhawn Sadwrn, 21ain Mehefin gan obeithio byddai'r haul yn gwenu a chael cynnal y te ar lawnt y Ficerdy yng Nghwmann, ond nid felly y bu - nid oedd y tywydd yn garedig iawn felly cynhaliwyd y te mefus yn Neuadd Sant Iago - ond ni amharodd y tywydd ar frwdfrydedd aelodau'r eglwys. Daeth nifer dda ynghyd i gymdeithasu a mwynhau'r prynhawn er gwaethaf y tywydd. Croesawodd yr Hybarch Andy John bawb i'r neuadd gan ddiolch iddynt am eu cefnogaeth. Roedd y byrddau yn llawn nwyddau blasus iawn wedi eu paratoi gan ferched yr eglwys - yna bu prynu a gwerthu brwd yn ystod y prynhawn a chyfle i eistedd a chael clonc fach ynghyd a mwynhau'r te mefus. Roedd y ficer, bechgyn ac un ferch ddewr iawn o'r eglwys wedi trefnu reid beicio o Ffair Rhos i neuadd Cwmann i godi arian a'r digwyddiad yn cyd redeg gyda'r te mefus. Croesawyd y beicwyr yn ôl yn ddiogel i'r neuadd ac er y glaw - roeddent wedi mwynhau'r profiad o'r daith - diolch am eich ymroddiad. Roedd y canlyniad ariannol yn ardderchog. Gobeithio nad yw'r cymalau yn dioddef gormod ar ôl y daith! Diolchodd yr Hybarch Andy John i'r beicwyr a'r noddwyr ac i bawb am eu cydweithrediad, hefyd i bob un arall a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant ysgubol y diwrnod a chodi swm sylweddol tuag at gronfa'r eglwys. Diolch eto i chi gyd. Braf yw cael dod at ein gilydd i gymdeithasu, edrychwn ymlaen yr awr at ein pererindod flynyddol sydd eleni yn ymweld ag Eglwys Pennant Milangell.

Cwmann

Sefydliad y Merched.

Croesawyd pawb yn gynnes i gyfarfod mis Mai gan ein Llywydd Gwen, a phleser oedd llongyfarch ein hysgrifenyddes Gwyneth a'i gŵr Endaf ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar. Rhoddwyd croeso hefyd i ferch ifanc o Drelew, Patagonia sef Romina Herrera a oedd yn aros gyda Morfydd Slaymaker.

Ar nodyn tristach cydymdeimlwyd â Lena Williams a oedd wedi colli ei brawd yn sydyn iawn. Diolchodd Gwen i'r aelodau a oedd wedi cymryd rhan yng nghyngerdd talentau lleol Cwmann.

Ann Inchaw o Lanybydder oedd wedi dod i siarad a dangos i ni beth oedd a sut oedd gwneud Pilateus. Cafwyd tipyn o hwyl pan aeth rhai o'r aelodau ynghyd i 'berfformio' ar y matiau. Diolchwyd iddi gan Gwynfil a chafwyd cwpaned o de cyn mynd adre.

"Bydd y bws yn gadael Heol Hathren am chwarter wedi chwech" dyna oedd y neges wrth Iona a Tegwen i'r aelodau a oedd am fynd ar y daith ddirgel nos Lun, Mehefin yr ail, a dyma deunaw aelod yn neidio ar y bws yn llawn cyffro wrth deithio ar yr A482 am Aberaeron ac yna ymlaen am Llanarth a chyrraedd Bragdy Penlon. Wrth adrodd yr hanes ar sut oedd y cwrw yn cael ei wneud cafodd pawb dro i brofi'r cwrw ac fe aeth sawl potel nôl ar y bws am Gwmann, talwyd y diolchiadau gan Elma cyn gadael Bragdy Penlon a symud ymlaen ychydig lawr yr hewl i Bardsey View lle'r oedd swper blasus yn aros amdanom. Diolchodd Gwen ein Llywydd i Iona a Tegwen am drefnu'r noson ac enillwyd y raffl gan Gwynfil.

Bethel Parcyrhos

Aeth trip Ysgol Sul eleni i Abertawe. Y stop cyntaf oedd Canolfan Hamdden y ddinas ar ei newydd wedd. Treuliwyd dwy awr bleserus yn nofio yn y tonnau a'r afon ffug a chael hwyl ar y llithrynnau. Ar ôl picnig, aethpwyd i'r 'Playzone' yn Llansamlet i chwarae. Ac ar ddiwedd y dydd ymwelwyd â'r Mwmbwls lle cafodd pawb sglodion i swper.

Dymuna'r plant a'r rhieni ddiolch i Carys ac Ann am eu gwaith yn yr Ysgol Sul drwy'r flwyddyn.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Beca Creamer, Brooklands am basio Gradd 3 ar y piano gydag anrhydedd o dan nawdd Coleg Cerdd Llundain.

Ysgol Carreg Hirfaen

Ar ôl bod yn paratoi'n ddiwyd iawn am wythnosau, ar ddydd Iau Ebrill 24ain aeth Hannah, Sion, Bradley, Gwenan a Tomas i Rownd Derfynol Cwis Llyfrau Sir Gaerfyrddin lawr ym Mhont y Berem.

Cerddon ni mewn i ystafell enfawr. Yna roedd yn amser i Gwenan, Hannah, Heini a Sion fynd mewn i'r ystafell fach i drafod y llyfr gosod. Cawson nhw sgôr dda o 42 pwynt mas o 60 posib.

Ar ôl cinio daeth yr amser i ni actio golygfa allan o'r llyfr. Ni oedd yr ysgol olaf ar y llwyfan. Ein llyfr ni oedd "Y Dyn Haearn".

Ni gafodd y pwyntiau uchaf am y perfformiad llwyfan – 36 o bwyntiau allan o 40.

Cyn bo hir roedd yn amser cael y canlyniadau am y diwrnod. Daeth Carreg Hirfaen yn drydydd allan o holl ysgolion y Sir. Roeddem yn blês iawn o'n gwaith.

gan Bradley Lewis

Ar Ebrill 25ain aethon ni i redeg yng Ngwersyll Urdd Llangrannog gan gynrychioli Tîm Ysgolion Cylch Llanbed yn nhrawsgwlad Sir Ceredigion. Daeth Mared Owen o flwyddyn 3 yn 6ed, Alwyn Morgan, blwyddyn 3 yn 5ed, Dafydd Morgan, blwyddyn 6 yn 11eg a Shanell McMullan o flwyddyn 5 yn 9fed.

Roedd hi yn bwrw glaw yn drwm pan oedden ni yn rhedeg gan ein gadael ni i gyd yn SOPEN wlyb!!!

Roedd tros 60 o blant ym mhob ras ac roedd y cwrs yn llithrig, serth ac anodd. Gwnaeth pawb o Garreg Hirfaen yn arbennig o dda.

gan Shanell McMullan Bl 5

Ar ddydd Sadwrn Mai 10fed aeth Mared Owen, Hari Button a Dafydd Morgan o Ysgol Carreg Hirfaen i redeg yn erbyn llawer o blant ar hyd a lled Cymru ar Gaeau Blaendolau, Aberystwyth ym Mhencampwriaethau Traws Gwlad Cymru. Roedd hi'n ddiwrnod crasboeth ac roedd hi'n anodd iawn rhedeg ar y dechrau ond erbyn diwedd y rasio roedd y gwynt wedi codi a'i gwneud hi'n haws rhedeg.

Daeth Mared yn 6ed yn ras Merched Blwyddyn 3, a Hari yn 39ain.

gan Mared Owen Blwyddyn 3

Ar brynhawn ddydd Llun, Mai 12fed aeth llawer o ysgolion cylch Llambed i Ysgol Cwrtnewydd lle cynhaliwyd Chwaraeon Potes yr Urdd. 'Roedd sawl gêm gyffrous i'w chwarae, er enghraifft taflu bagiau ffa a golff. Cawsom lawer o sbri a digon o gystadlu brwd. Cawsom gyfle i ddathlu hefyd gan i dîm A Carreg Hirfaen ennill y dydd .

Ar Fai'r 20fed aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Faes Sioe Caerfyrddin ar gyfer gweithdy blynyddol Criw Craff. Roedd y diwrnod yn wych, efo'r Gwasanaethau Achub wedi dod at ei gilydd i drefnu sioe i godi ymwybyddiaeth plant yr ardal ar gyfer bod yn ofalus a diogel yn ein bywydau pob dydd. Roedd yn cynnwys diogelwch ar y We, peryglon cyffuriau, beth i'w wneud pe byddech yn cael eich denu gan bobl ddieithr, sut i feicio yn gywir a diogel ar yr hewl fawr a beth i'w wneud pe bai chi'n dod ar draws rhywun sydd yn anymwybodol.

Roedd y diwrnod yn ddiddorol ac fe ddysgom lawer o bethau pwysig.

gan Gethin Morgan.

Ar ddydd Llun y 15fed o Fehefin, cawsom fabolgampau blynyddol Dyffryn Cothi yn Llansawel. Gwnaeth Carreg Hirfaen yn arbennig o dda yn y mabolgampau gyda llawer o blant yr ysgol yn gorffen yn gyntaf, ail neu drydydd.

Enillodd yr Ysgol Darian y Ras Gyfnewid i blant Blwyddyn 1 a 2 a Tharian Ras Hir Blwyddyn 5 a 6.

Daeth tîm Ras Gyfnewid Blwyddyn 3 a 4 a thîm 5 a 6 yn ail. Roedd fan hufen ia yno yn gwneud busnes da gan fod yr haul yn gwenu'n braf trwy'r p'nawn.

Roedd llawer o bobl yno yn cefnogi ac roedd pawb wedi cael diwrnod bendigedig.

gan Morgan Lewis a Hanna Evans, Blwyddyn 4

Ar ddydd Gwener, Mehefin 20fed cawsom ddiwrnod addysgiadol yn yr Ardd Fotaneg yn Llanarthne. "Rocks and Soils" oedd gwaith y dydd, gwaith yr ydym yn ei astudio yng Ngwyddoniaeth ar hyn o bryd.

Roedd Diane, ein hathrawes, wedi dangos i ni beth sydd mewn pridd. Yna, aethom i weld craig fawr anghyffredin â choeden yn tyfu ynddi. Cafodd pawb y cyfle i dynnu llun o'r graig a'r goeden. Hefyd, gwelsom fideo ar blanhigion gwahanol a chael taith hyfryd o gwmpas yr ardd. Roedd yn ddiwrnod pleserus iawn.

Ar ddydd Sadwrn, Mehefin 21ain aeth Mared Owen, Hanna Evans a Rhydian Edwards lan i Blascrug, Aberystwyth i wneud yr Aquathon Genedlaethol. Aquathon yw nofio 4 "length" neu 100 medr yna rhedeg 1000 metr i flwyddyn 3 a 4 a milltir i flwyddyn 5 a 6. Doedden ni ddim yn nerfus, roedd yr Aquathon yn mynd i fod hwyl.

Roeddech chi'n cofrestru yn eich blwyddyn ac yn rasio yn eich dosbarth (bechgyn a merched arwahan). Roedd hi'n dywydd diflas ond yn ffodus, er iddi ddweud ar y tywydd ei bod hi'n mynd i fwrw glaw yn drwm trwy'r dydd dim ond ambell i gawod gawsom ni!

Daeth Mared yn 3ydd a chafodd Hanna 8fed. Cafodd Rhydian ras dda hefyd ond yn anffodus ni orffennodd yn y deg cyntaf.

gan Mared Owen

Llongyfarchiadau calonog i Gylch Meithrin Coedmor, am ennill marc ansawdd Cylch Rhagorol Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae adroddiad yr arolygydd yn canmol y gofal a'r profiad eang y mae'r plant yn eu cael yn y cylch. Canmolwyd perthynas wych y staff â'r plant a thynnwyd sylw at awyrgylch hyfryd o hapus a geir yno. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn ddiffuant i Mrs June James, arweinydd y cylch, ac i'r cynorthwyydd Mrs Tegwen Williams am eu holl waith cydwybodol graenus. Mae ardal allanol newydd ei datblygu sy'n hynod o ddengar a phwrpasol sydd yn caniatâu inni roi'r cyfnod sylfaen ar waith yn llawn. Cyllidwyd y datblygiad hwn drwy ymdrechion codi arian rhieni a staff a thrwy haelioni blynyddol Cyngor Cymuned Pencarreg, ac mae diolch hefyd i Mr Aled Jones-Evans, Prifathro Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen, am ei gymorth a'i gefnogaeth ymarferol wrth ddwyn y maen i'r wal. Bydd croeso i blant newydd yn y cylch ym mis Medi drwy gysylltu â'r arweinydd Mrs June James (422901). Yn y llun gwelir yr ardal allanol ar ei newydd wedd ynghyd â'r plant a'r staff.

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau i Wynford Edwards Ddeunant sydd newydd dderbyn llawdriniaeth yn ysbyty Gobowen hefyd Mr David Tom Davies, Brynteifi sydd yn ysbyty Glangwili ac i Mrs Phyllis Jones, Cilgell sydd ddim wedi bod yn mwynhau'r iechyd gorau yn ddiweddar.

Cymorth Cristnogol

Mae'r casgliad eleni yn £1038.75, rhagorol! Diolch yn fawr i'r casglwyr i gyd a diolch i bawb am roi mor hael. Da iawn bobl Cwmann!

Ysgol Cyfun Llanbedr Pont Steffan

Llongyfarchiadau gwresog i'r pum disgybl sydd wedi cael eu hethol yn brif swyddogion ar gyfer 2008-2009. Russell Pink ac Elin Jones yw'r Prif Fachgen a'r Brif Ferch a Luned Mair, Natalie Moore a Shawn Brown yw'r dirprwyon.

Bu llawer o weithgarwch yn yr Adran y Gymraeg yn ddiweddar.

Bu blwyddyn 7 Non a rhai o 7 Dewi a 7 Pedr yn cymryd rhan mewn sesiwn 'Hwyl gyda geiriau', yng nghwmni Euros Lewis a chafwyd llawer o hwyl yn byrfyfyrio ac yn sgriptio.

Ar 18fed o Fehefin mynychodd myfyrwyr blwyddyn 12 Safon Uwch Cymraeg gynhadledd amlgyfrwng yn y Brifysgol yn Llanbed. Cafwyd cyfle i gwrdd â disgyblion eraill o ysgolion led led Cymru, ac yn y gynhadledd cafwyd darlithoedd diddorol sef 'Rhyddiaith yr Oesoedd Canol' yng nghwmni Dr Rhiannon Ifans, 'Barddoniaeth Gymraeg Fodern' yng nghwmni Ceri Wyn Jones, 'Yr Hengerdd' yng nghwmni Dr Elisa Moras a 'Martha, Jac a Sianco' yng nghwmni Caryl Lewis. Diolch i Adran Gymraeg y Brifysgol am eu croeso a gwerthfawrogwn y cyswllt a'r gefnogaeth yn fawr. Bu'n ddiwrnod buddiol, diddorol a difyr. Dyma'r disgyblion a fu yn y gynhadledd :- Elin Jones, Hedydd Davies, Luned Mair, Natalie Moore, Angharad Evans, Beca Lewis, Hedydd Wilson, Ffion Evans a Gwawr Bowen.

Ar Fehefin 12fed mynychodd blwyddyn 12 a 13 Cymraeg Theatr Mwldan, Aberteifi, lle gwelwyd perfformiad pwerus o 'Siwan', Saunders Lewis, gan Gwmni Theatr Cenedlaethol Cymru. Dyma gyfle gwych i weld un o glasuron y theatr Gymraeg a chafwyd budd mawr o fynychu'r theatr a mwynhau'r profiad.

Unwaith eto eleni bu'r Adran Hanes yn ymweld â Maenordy Llancaiach Fawr, ger Merthyr. Aeth 87 o ddisgyblion blwyddyn 8 ar daith o amgylch y tŷ diddorol gan gael cipolwg ar fywyd, traddodiadau ac arferion yr ail ganrif ar bymtheg. Mae'r tŷ wedi ei ddodrefnu a'i addurno fel yn oes y Rhyfel Cartref, ac mae'r tywyswyr yn gwisgo dillad yr oes ac yn siarad iaith y cyfnod.

Yn wir, yr oedd ymweld â'r maenordy fel teithio yn ôl mewn amser. Yn y gegin ac ystafelloedd y gweision, gwelsom y teclynnau a ddefnyddiai'r gweision wrth eu gwaith bob dydd. Fe wnaeth pob un ohonom ni gwdyn perlysiau, a oedd yn cael eu defnyddio i gadw'r pla du draw. Ar y llawr canol aethom i'r brif neuadd ble roedd y brenin Siarl I ei hun wedi gwledda yn ystod y Rhyfel Cartref. Ar y llawr uchaf roedd ystafelloedd cysgu'r meistr a'i deulu. Hefyd ar y llawr uchaf roedd yr ystafell arfau lle cafodd rai o'r disgyblion y cyfle i wisgo fel milwyr y Rhyfel Cartref. Yma cafwyd llawer o hanesion diddorol am arfau a dulliau ymladd y cyfnod ynghyd â hanes y dulliau o drin clwyfau heb anesthetig. Poenus iawn!

Ar ôl picnic yn y gerddi aethom yn ôl i'r ysgol wedi dysgu llawer am fywyd yn yr ail ganrif ar bymtheg.

Ar ddydd Mawrth,10fed o Fehefin, bu 78 o ddisgyblion Blwyddyn 9 a 10 ar daith i Ffrainc a Gwlad Belg gyda'r adran Hanes i ymweld â Ffosydd Y Rhyfel Byd Cyntaf.

Wedi diwrnod hir o deithio, fe gyrhaeddon ni westy Novotel yn Ypres yn ddiogel a chael swper blasus mewn bwyty yn y prif sgwâr. Treuliodd bws yr 'haneswyr' y diwrnod cyntaf yn ymweld â'r Somme yn Ffrainc. Yn gyntaf, buom yn ymweld â Pharc Coffa Beaumont Hamel, sy'n cofio am ymdrechion milwyr o Newfoundland, Canada yn ystod yr ymladd. Cawsom ein tywys gan fyfyrwyr o Ganada a chafwyd cyfle i gerdded drwy'r ffosydd – o linell flaen y Cynghreiriaid dros dir neb a draw at ffosydd yr Almaenwyr.

Ar ôl cael picnic y tu allan i'r parc, aethom ymlaen i weld Cofeb Thiepval, sef y brif gofeb i filwyr coll brwydr y Somme. Bu'r ymweliad yn un emosiynol iawn i ddau o'n disgyblion - Rhys Price a Fiona Messer wrth iddynt lwyddo i ddarganfod enwau perthnasau a fu'n ymladd yn y frwydr ymysg miloedd o enwau milwyr ar welydd enfawr y gofeb.

Ein hymweliad nesaf oedd coedwig Mametz a chofeb y Ddraig Goch sy'n cofio'r Cymry a fu farw yno wrth geisio cipio'r goedwig. Gosododd Rhys Price dorch o flaen y gofeb. Ymweliad olaf y diwrnod oedd Cofeb Genedlaethol De Affrica yn Delville Wood. Gwelwyd adeilad trawiadol tu hwnt a chofgolofn dau filwr o Gymru a wnaeth ennill y Victoria Cross.

Yn Ypres, aethon ni i amgueddfa Flanders Field, ble cawsom ni gymeriad yr un i'w dilyn drwy'r rhyfel. Ymwelwyd â mynwent Essex Farm ac yna bedd y Prif Fardd Hedd Wyn yn Artillery Wood. Roedd yn brofiad emosiynol yn gwrando ar Nicola Miles, Rhys Price a Rowan Williams yn darllen y gerdd 'Rhyfel' wrth ymyl ei fedd:

"A gwaedd y bechgyn lond y gwynt,
A'u gwaed yn gymysg efo'r glaw".

Ar ôl picnic wrth ymyl Artillery Wood aethom i ymweld â mynwent Almaenaidd, sef Langemark, sy'n hollol wahanol i'r mynwentydd Prydeinig. Yna, ymlaen i fynwent Tyne Cot, sef y fynwent Brydeinig fwyaf o'i math a oedd yn coffau'r milwyr a fu farw tra'n amddiffyn yr 'Ypres Salient'.

Cafodd y disgyblion wir brofiad o'r ffosydd yn Hill 62. Yma mae rhan o'r ffosydd wedi cael eu cadw mor debyg â phosib i adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Dychwelsom i Ypres a chael cyfle i brynu siocledi cyn mynd draw at gofgolofn y Menin Gate i weld seremoni emosiynol y 'Last Post', sy'n cael ei gynnal bob nos i gofio am y milwyr coll.

Yn wir, cafwyd taith brysur a llwyddiannus. Dychwelsom nos Wener, 13eg o Fehefin, ar ôl cael cyfle i siopa yn Calais a phawb wedi blino ond wedi mwynhau. Diolch yn fawr i Mrs Margaret Williams am drefnu taith lwyddiannus arall.

Cynhaliwyd ail rownd Her Cerddoriaeth 2008 (Dyfed-Powys) ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaerfyrddin ar Fehefin 10fed a llongyfarchiadau mawr i Samara ac Elisha Van Ryswyk a Beth Johns am gipio'r drydedd wobr. Roedd Elisha'n chwarae'r drymiau, Samara yn chwarae'r gitâr a Beth Johns yn canu. Roedd Angharad Van Ryswyk hefyd yn aelod o'r band. Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel iawn ac fe berfformiodd y grŵp yn arbennig o dda.

Ar Fehefin 11eg, bu Mrs Delor James, Mrs Dianne Evans, Mrs Sarah Evans, Helen Roberts a Linda Davies yn cymryd rhan yn y 'Race for Life' yn Aberystwyth. Codwyd swm sylweddol o arian i Ymchwil Cancr UK a diolch i bawb a gyfrannodd at yr achos.

Erbyn hyn, mae pob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch wedi ymweld â'r ysgol fawr i gael rhagflas o fywyd yr ysgol, gan fynychu nifer o wersi gwahanol. Gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau ac edrychwn ymlaen at eich croesawu nôl i'r ysgol gyda'ch rhieni cyn diwedd y tymor ac i'n plith yn swyddogol ym mis Medi.

Bu'n adeg brysur ar yr Adran Dechnoleg Bwyd.

Daeth Elliw Mair a Lowri Pugh Davies yn ail yn rownd derfynol y gystadleuaeth 'Cogurdd' ar faes yr Eisteddfod yn Sir Conwy. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch chi.

Bu Gwawr Hatcher, Lauren Jones, Meleri Davies a Sophie Jones o 7 Pedr yn cystadlu yng nghystadleuaeth Undeb Amaethwyr Cymru yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Conwy. Fel rhan o'r gystadleuaeth bu rhaid iddynt ddylunio rysáit cyri blasus a fyddai'n addas i'w weini yn Hafod Eryri, sef y ganolfan newydd ar gopa'r Wyddfa, ac yna ei goginio ar faes yr Eisteddfod. Er na dderbyniwyd gwobr, cawsant lawer o hwyl.

Ar Fai 13eg, bu disgyblion blwyddyn 9 a 10 sy'n astudio Bwyd a Maeth yn mynychu Dosbarth Meistr o dan arweiniad Naomi McDonna. Roedd y ddarlith yn cyflwyno sut oedd ymarferwr iechyd yr amgylchedd yn gweithredu ac yn sicrhau glendid bwyd.

Ar Fehefin 16eg, bu 10 o ddisgyblion o flwyddyn 9 sy'n dilyn cwrs TGAU Bwyd a Maeth yn yr Adran Arlwyo yng Ngholeg Aberteifi yn paratoi, yn coginio ac yn gweini bwyd. Roedd yn brofiad arbennig iddynt.

Ers dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod arholiadau, y mae blwyddyn 12 wedi bod ynghlwm â'r prosiect 'Rhaglen Cyfoethogi'r Cwricwlwm'. Bob dydd Mercher maent wedi bod yn bresennol mewn amrywiaeth o sesiynau diddorol iawn. Trefnwyd 'Mega Drive' ym maes awyr Aberporth, ble buont yn gyrru ceir. Ymwelodd yr Heddlu, Y Frigâd Dân, parafeddygon, hyfforddwyr gyrru ac ymwelydd iechyd â'r ysgol. Cafwyd sesiwn ar 'Gymru, Ewrop a'r byd' ac fe fu swyddogion Cymorth Cristnogol yn sôn am ddatblygiadau yn y Trydydd Byd. Fe fu Small World Theatre yn yr ysgol yn cynnal gweithdai rhyngweithiol a chafwyd sesiwn 'Islamaphobia' yn ymdrin â rhagfarn a dinasyddiaeth. Bu yna gyfle hefyd i wella sgiliau ieithyddol drwy wneud 'Cymraeg ar lein' drwy'r brifysgol yn Llanbed. Y mae'r cynllun yma wedi bod yn fuddiol iawn i ddisgyblion y Chweched ac yn eu paratoi ar gyfer y dyfodol.

Ar ddiwedd y tymor byddwn yn ffarwelio â dau aelod o staff. Bu Pennaeth yr Adran Hanes, Mrs Margaret Williams, yn dysgu yn yr ysgol am 20 mlynedd, a'r Pennaeth Cynorthwyol, Mr Phil Thomas, yn athro Economeg am 24 o flynyddoedd. Diolchwn yn fawr iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr dros y blynyddoedd a dymunwn ymddeoliad hapus i'r ddau ohonynt

Dymunwn bob lwc hefyd i Mrs Anwen Jones sy'n cychwyn ar ei chyfnod mamolaeth.

Braf yw cael cyhoeddi llwyddiannau'r Adran Chwaraeon.

Ar ddiwedd mis Mai, cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol a chafwyd diwrnod cyffrous a llwyddiannus iawn wrth i'r tri thŷ sef Creuddyn, Dulas a Theifi gystadlu'n frwd am gwpan yr enillwyr. Roedd safon y cystadlu'n ardderchog a gwelwyd nifer o recordiau'r gorffennol yn cael eu torri. Ar ddiwedd diwrnod llawn a hwylus o gystadlu, Dulas ddaeth i'r brig.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth athletau'r Sir. Bu nifer o'n disgyblion yn llwyddiannus iawn. Dyma'r canlyniadau :-

Canlyniadau'r Bechgyn - 100m a 200m Kyle Ward 1af, Naid Hir a Naid Driphlyg Craig Richards 2ail, 400m Glen Janes 2ail, Clwydi a Naid Uchel Steffan Thomas 1af, 3ydd, 200m Daniel Garside 1af, 800m Rhys Douglas 2ail, Naid Hir Steffan Roberts 3ydd, Clwydi David Heath 2ail, Pwysau Dylan Evans 2ail.

Fe fydd Kyle Ward, Craig Richards, Daniel Garside, Glen Janes a Steffan Thomas yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth Athletau Dyfed. Pob lwc i chi.

Ar Ebrill 26ain yng Nghilgeti cynhaliwyd twrnament pêl-droed i ferched dan 13. Enillodd tîm pêl-droed Teifi Girls yr ail wobr. Aelodau'r tîm oedd Caryl Thomas, Mel Morris, Siân Elin Williams, Sioned Douglas, Alice George, Cara Jones, Lauren James a Sophie Jones. Llongyfarchiadau gwresog i chi.

Llongyfarchiadau mawr i dîm criced blwyddyn 7 ar ennill cystadleuaeth y Sir.

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Kevin Thomas**
Oed: 27 oed
Pentref: Cwmann
Gwaith: Technegydd gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans.
Teulu: Eddie (dad) Jenny (mam) Gareth (brawd)

Unrhyw hoff atgof plentyndod?
Mynd i fferm tad-cu a mam-gu amser y gwair.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Catch the Pigeon.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Cwympo dros fariwns adeg penwythnos y rygbi Cymru - Eidal yn Rhufain a dod adre yn edrych fel panda gyda dau lygad du.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Trin pawb fel y byddet eisiau cael dy drin dy hunan.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
"Boom, Boom, Shake the Room" - Jazzy Jeff a Fresh Prince.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Yn cymdeithasu gyda ffrindiau ar ôl chwarae gêm o rygbi.

Beth yw dy lysenw?
'Disco Kev' oherwydd dwy methu dawnsio disco.

Pwy yw dy arwyr?
Sam Thomas (electric) am edrych ar ôl pawb ar y daith rygbi i Rufain. Roedd yn debyg iawn i Don Corleone (The Godfather)

Y peth gorau am yr ardal hon?
Cyfeillgarwch y bobl.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Dim tacsi ar gael yn ddiweddar ar nos Sadwrn. Diolch byth am dacsi Doughty!

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobl hunanol.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000?
BBQ a pharti mawr gyda fy ffrindiau a phrynu bucking bronko.

Beth sy wedi codi ofn arnat?
Tra'n teithio yn Awstralia - Kangaroo yn neidio allan o flaen ein jeep tra'r oedd Heulyn a minnau yn gyrru yn y tywyllwch drwy'r 'outback'.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Yfed Guinnes Tom Mackie yng Nghlwb Rygbi Llambed.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Chwarae rygbi, nofio, a mynd i'r gampfa.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Paid â phoeni, rho wên ar dy wyneb.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cael swydd gyda'r gwasanaeth ambiwlans yn Aberystwyth.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hapus, drygionus, cymdeithasol.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Seat Leon

Beth yw dy hoff air?
Bendigedig!

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Ray Mears. (extreme survivalist).

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Cyri.

Beth wyt ti'n ei ddarllen nawr?
"Trick of the Mind" – Derren Brown

Beth yw dy hoff arogl?
Quiche twym mam-gu.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Maeddu Llyr ar y gêm Wii.

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
"Superbad" oedd y ffilm ddiwethaf – roedd yn ardderchog.

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Pablo Gonzalez – y crwban

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Hoffem chwarae'r gitâr a chanu'n dda. Rwy wedi dysgu'n hunan i chwarae'r gitâr ond dwy ddim yn credu fod gobaith i mi wella'n llais.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Cysgu (rwy'n hoff iawn o fy ngwely)

Beth sy'n rhoi hwyl i ti?
Gweld blaenwyr Llambed yn ceisio chwarae rygbi saith-bob-ochr. (Geraint a Gari).

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
"Going Deeper Underground" Jamiroqai

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Na, dim ond un cyfle, gwnewch y gorau o'r bywyd yma.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Efallai, gyrru bws i Girls Aloud.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Ffrindiau a theulu.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Eddie Thomas (Yr hen foi).

Y gwyliau gorau?
Cymeryd blwyddyn allan i fynd o amgylch y byd yn ymweld â sawl gwahanol wlad a diwylliant, yng nghwmni Llyr, Heulyn, Huw a Daniel.

Atgofion da?
Cofio am y croeso a gawsom gan bobl groesawgar y Cooke Islands - Cael llety ganddynt a phryd traddodiadol gyda phlismon yr ynys bob dydd Sul tra ar yr ynys.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Darllen a phaned o de.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Ffion Thomas, Alltyblacca

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad
Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		7			5	8	4	
3				8			6	2
	2		3	6				7
	4	9		7	8			
6	5						7	8
			4	3		2	5	
4				2	7		8	
1	9			5				4
	8	2	6			9		

Atebion Swdocw Mis Mehefin

4	8	1	9	3	6	7	2	5
2	6	7	4	1	5	8	3	9
5	9	3	8	2	7	4	6	1
6	4	9	2	5	3	1	8	7
7	2	5	6	8	1	3	9	4
1	3	8	7	9	4	6	5	2
8	5	6	1	7	2	9	4	3
3	7	4	5	6	9	2	1	8
9	1	2	3	4	8	5	7	6

Enillydd: **Hugh Evans, Coedparc, Llanybydder**. Diolch i bawb arall am gystadlu hefyd: **Glenys Thomas**, Llanybydder, **Eurwyn Davies**, Heol-y-gaer, Llanybydder, **Bethan Wlliams**, Heol-y-gaer, Llanybydder, **Glenys Davies**, Rhydybont, Llanybydder, **Jean Griffiths**, Cwrtnewydd, **Rhian Jones**, Llanwenog, **Eileen Rees**, Cwrtnewydd, **Avril Williams**, Cwmann, **Luned Jones**, Blaencwrt, Llanwnnen ac **Iona Warmington**, Llandaf, Caerdydd.

Taith Ddiwylliadol

Mae Taith Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrhos yn ddigwyddiad sefydlog i drigolion Cwmann a Pharcyrhos ers sawl blwyddyn bellach, ac eleni, y llywyddion Eiddig a Gwen Jones oedd y trefnwyr. Dyma fraslun o'r hyn a ddarparwyd.

Ar ôl teithio rhyw dair milltir o Gelliddewi gadael yr hen blwyf a chroesi'r ffin i Sir Aberteifi. Teithio trwy Gellan - pentref sydd fel hafod a hendre gydag Eglwys, dau Gapel, Ysgol a hen Ysgoldy. Gweld cofeb i'r ddau frawd Griffith John a David Matthew Williams yng Nghellan Cwrt, ysgolheigion o fri. Bu GJ Williams yn ddarlithydd Adran Geltaidd ym Mhrifysgol Caerdydd gan wneud ymchwil yn llawysgrifau Llanofer ac ar Iolo Morgannwg.

Teithio ymlaen tuag at Lanfair Clydogau - y lle mwyaf deheuol y bu cloddio am fwyn ac arian yn Sir Aberteifi. Galw ym mynwent yr Eglwys, gweld bedd William Jones Glandenys un o gyn berchnogion Banc Yr Eidion Du. Dangos bedd y cariadon sef gwraig William Jones - Ann a'i chariad Edward Hesketh Fornby. Mae mwy o'r hanes i'w gael yn llyfr Bethan Phillips - Lovers Grave.

Heibio fferm gaws byd enwog Gorwydd ar ein ffordd i Eglwys Llanddewi Brefi, cael ein tywys a chael hanes yma gan Y Parchedig Dyfrig Lloyd.

Teithio trwy Dregaron tuag at Gors Caron, aros yno i gael sgwrs a phicnic.

Ymlaen wedyn i Ystrad Fflur, cael hanes yr Abaty a'r Eglwys gan Mr Lyn Ebenezer. Yma hefyd y cawn weld ail fedd Dafydd ap Gwilym.

Teithio am Ledrod a Threfenter ymweld â fferm wynt Llangwyryfon a chael ychydig hanes gan Mr Dilwyn Jenkins. Ymlaen at ardal Y Mynydd Bach lle gwelwn gofeb i feirdd Y Mynydd Bach, sef BT Hopkins, T Hughes-Jones, JM Edwards ac E Prosser-Lloyd a chael anerchiad gan Mr Geraint Lewis. Hefyd cael hanes am Ryfel y Sais bach, dyma oedd hanes terfysg mwyaf Sir Aberteifi yn ymwneud â thir pan oedd y comisiwn yn deddfu cae y mynydd (Enclosure Act). Prynodd dyn o'r enw Augustus Brackenbury tua 900 erw ar lechwedd Mynydd Bach a Llyn Eiddwen. Dyma dir oedd y brodorion lleol yn arfer pori a thorri mawn. Adeiladodd Brackenbury dŷ crand ar y tir, ond rhyfelodd y bobl leol yn ei erbyn, gan losgi ei dŷ tair gwaith dros gyfnod o wyth mlynedd, hyd yn y diwedd, gadael y mynydd a wnaeth.

Ar y ffordd hefyd i Drefenter, pasio pen lôn Cefn Coch lle'r oedd William Richards yn byw. Wrth hela yn anghyfreithiol gyda'i gyfeillion lladdodd Wil ben 'keeper' stad Trawscoed. Cafodd Wil ei gwato am fisoedd gan werinwyr cefn gwlad y Mynydd Bach gan fod 'na £100 o wobr am ei ddal ac i ddod ag ef i'r Llys. Gyda help dau ffrind cafodd ei dywys i borthladd Lerpwl wedi ei wisgo fel merch ac aeth ar long gyda llawer o gyd Gymru i'r America ac ymsefydlodd yn Oak Hill, Ohio. Mewn pedair blynedd ymunodd ei gariad Elisabeth Morgan o Bontrhydfendigaid ag ef. Priodi mewn blwyddyn a byw yn hapus; bu William yn alltud am 52 mlynedd.

Bwrw wedyn am Benuwch a mwynhau swper braf yn y Penuwch Inn. Talodd Dilwen Roderick y diolchiadau i Eiddig a Gwen am noson ddiddorol a dymunol iawn.

Eisteddfod

RHESTR TESTUNAU YR ADRAN LLENYDDOL
EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES PANTYFEDWEN
LLANBEDR PONT STEFFAN AWST 22 – 25 2008

Beirniaid: Y Prifardd Meirion Macyntyre Huws, Dai Rees Davies, Nia Jones.

1. Cystadleuaeth y Gadair.
Saith Englyn i saith person gwahanol. (Angen dau gopi).
Gwobr: Cadair Fechan a £200.

2. Cystadleuaeth y Goron.
Casgliad o gerddi. Testun: 'Caethiwed'. (Angen dau gopi).
Gwobr: Coron a £200.

3. Cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith.
Darn neu ddarnau o ryddiaith (heb fod dros gyfanswm o 3,000 o eiriau).
Testun: Greddf.
Gwobr: Y Fedal a £200. Eiddo'r buddugol yw'r hawlfraint.

4. Cystadleuaeth i Rai Dan 25 oed.
Telyneg mewn mydr ac odl. Testun: 'Fflam'. Gwobr: Cadair Arian Fechan (Sialens) i goffáu'r Bardd Carellio, £150 ynghyd â Thlws Coffa Aneurin i'w gadw.

5. Tlws Ieuenctid i Rai Dan 25 oed.
Portread. Gwobr: Tlws Ieuenctid a £150.

6. Englyn. Testun: 'Y Gwyddoniadur'.
Gwobr: £120 i'w rannu (Gwobr Goffa'r Capten Jac Alun Jones).

7. Englyn Ysgafn. Testun: 'Tŷ Gwydr. Gwobr: £120 i'w rannu.

8. Cerdd yn y Wers Rydd. Testun: 'Tyfiant'. Gwobr: £120 i'w rannu.

9. Cywydd. Testun: 'Gwisg'.
Gwobr: £120 i'w rannu (Gwobr Goffa Edwin Jones).

10. Stori Fer yn seiliedig ar ardal benodol. Gwobr: £120 i'w rannu.

11. Pedwar Triban neu Bedwar Pennill Telyn. Testun: 'Tymhorau'.
Gwobr: £120 i'w rannu.

12. Cân neu Gerdd Ddigri'. Testun: 'Yr Olympics'. Gwobr: £120 i'w rannu.

13. Cyfres o Chwe Limrig yn cynnwys enwau llefydd. Gwobr: £120 i'w rannu.

15. Talwrn y Beirdd.
Disgwylir i'r tîmau gofrestru erbyn 11 Awst. Ni ddylid cynnwys llai na thri aelod ym mhob tîm. Gwobrau: 1af £150 a Tharian Sialens Goffa Jim Evans; Ail £100; 3ydd £50 (Rhoddir £20 i bob tîm arall sydd yn cystadlu).
Dylid cofrestu drwy gysylltu â'r Prifardd Idris Reynolds, 01239 654 302.

Rhaid i bob cynnig llenyddol fod yn llaw Ysgrifennydd y Pwyllgor Llên erbyn dydd Llun, 11 Awst 2008. Er tegwch i'r beirniaid ni dderbynnir cynigion ar ôl y dyddiad hwn ac ni dderbynnir cynigion drwy e-bost. Danfoner pob cais, ynghyd â ffugenw ac amlen sydd yn cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad a rhif ffôn, at: **Meinir Ebbsworth**, Brynamlwg, Llanwnnen, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7LT.

CANMLWYDDIANT YSGOL LLANWNNEN
1908-2008

Rhaglen y Dathlu

Nos Sadwrn 5ed Gorffennaf
Sioe y Dathlu yn Theatr Felin-fach.
Ffoniwch y theatr am docynnau.
01570 470 697.

Dydd Sadwrn 20fed Medi
Te, arddangosfa, dadorchuddio plac a lawnsio llyfr
Ysgol Llanwnnen, 2.00yp

Nos Sadwrn 20fed Medi
Cinio'r dathlu
yng Ngwesty'r Grannell.
£17.00 am docyn o'r ysgol
01570 480 203.

Dydd Sul 21ain Medi
Cymanfa Ganu, Capel y Groes.

Hefyd ar gael …
• Plât y dathlu - £12.50
• Mwg y dathlu - £7.50

Dewch i gefnogi canrif o addysg yn Llanwnnen

Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan
i'w chynnal ar – Gaeau Pontfaen
Dydd Gwener 8fed o Awst 2008
Llywydd – Mr Andrew Jones, Gwmgwyn, Pentrebach, Llambed

Oedolion £5-00 Plant dan 14, £1-00

Dosbarthiadau - Gwartheg, Defaid, Ceffylau, Geifr, Moch a Chŵn
Y babell – Cynnyrch Fferm, Cynnyrch Gardd, Blodau, Coginio, Gwinoedd, Cyffeithiau, Gwaith Llaw, Crefftau Gwlad, Ffotograffiaeth, Plant Ysgol a C.Ff.I.

Arddangosfa Hen Beiriannau Fferm
Arddangosfa Crefftau
Arddangosfa Coginio gan Alwen McConochi - Enillydd CASA Dudley
Rygbi 7 bob ochr ar ôl y sioe
Disgo yn yr hwyr

Manylion oddi wrth
Mrs Gwen Davies – Ffôn – 01570 481152
Mr Aeron Hughes – Ffôn – 01570 422654

Ffarmers

Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Mrs Dorothy Jukes, Ffawyddog a fu farw yn ddiweddar yn 95 oed. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Llanycrwys ar ddydd Gwener, y 6ed o Fehefin, ac wedyn yn Amlosgfa Aberystwyth. Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Mrs Ann Hughes, Carmel, Crosshands a fu farw yn dilyn cyfnod hir o afiechyd. Roedd Ann yn adnabyddus i ni yn ardal Ffarmers fel Ann Dolaucanol.

Pen-blwydd hapus

Pen-blwydd hapus i Mrs Audrey Jones, Glanyreryr ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain a deg oed.

Diolch

Dymuna Mrs Joan Davies, Troed y bryn ddiolch i'w holl ffrindiau a pherthnasau am eu dymuniadau da a'u hanrhegion pan iddi ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed yn ddiweddar. Diolch o galon.

Llongyfarchiadau

Mae'n dda gweld ieuenctid yr ardal yn llwyddo mewn gwahanol feysydd, a rhaid llongyfarch dau o fechgyn lleol ar eu llwyddiant yn ddiweddar. Mae Ian O'Connor ac Adrian Evans y ddau ohonynt yn gneifwyr penigamp, ac yn ogystal â phrofi llwyddiant yn lleol yng nghystadlaethau'r ffermwyr ifanc, mae'r ddau ohonynt hefyd wedi ennill gwobrau mewn cystadlaethau y tu allan i Gymru yn Sioe y Bath & West ac hefyd yn y Devon County yn ddiweddar. Da iawn chi.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gwennan Evans ar gael swydd yng Nghaerdydd fel Swyddog Llenyddiaeth gyda'r 'Academi.' Mae Gwennan – sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Ffarmers ac Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan - newydd raddio o Goleg Prifysgol Cymru Bangor ar ôl dilyn cwrs gradd mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol. Pob hwyl i ti gyda dy yrfa.

Pob lwc i Carys Thomas, Penywaun fydd yn dilyn cwrs cerddorol gyda Chôr y Tair Sir yng Ngholeg Llanymddyfri ar ddechrau mis Gorffennaf, ac yn perfformio gyda'r Côr yn Neuadd y Celfyddydau yn Aberystwyth ar y 9fed o Orffennaf. Llongyfarchiadau i ti hefyd ar lwyddo gyda'r prawf gyrru!

Noson Caws a Gwin

Cafwyd noson hwylus dros ben yn Neuadd Bro Fana ar nos Wener, y 23ain o Fai pryd y cynhaliwyd Noson Caws a Gwin. Cyfle gwych i gymdeithasu a phrofi amrywiaeth o winoedd a chaws. Croesawyd Maugan, Kim a Rob o Gwmni Caws Gorwydd, Llanddewi Brefi lle y cychwynnwyd ar fusnes gwneud caws gan y teulu 'Trethowan' ym 1996. Erbyn hyn mae'r caws yn cael ei werthu trwy wledydd Prydain, yn Ewrop, Yr Unol Daleithiau a Chanada. Caws Caerffili yw'r cynnyrch, a gwnaeth ein gwesteion egluro'n fanwl y broses o wneud y caws, ei aeddfedu, a'r gofal a gymerir o'r cosyn hyd nes iddo gael ei werthu. Mae teulu Trethowan wedi profi llwyddiant sylweddol gyda'r caws gan ennill gwobrau yng nghystadlaethau caws ym Mhrydain ac yn fyd-eang. Enillwyd 'Caws Gorau Prydain' ganddynt yn 2005. Yn ogystal â phrofi Caws Gorwydd, roedd yna amrywiaeth o gaws Cymreig arall ar gael i'w blasu gan gynnwys Pont Gâr, Caws Blaenafon a Chaws Tyndyrn - a dewis o winoedd a port safonol i wneud y noson yn brofiad arbennig. Mae galw am nosweithiau tebyg i'w cynnal eto'n fuan!

Lleisiau Lleol

Mae Cyngor Neuadd Bro Fana wedi derbyn gwahoddiad i ymuno mewn prosiect cyffrous - 'Lleisiau Lleol' - trwy recordio a chadw atgofion cymeriadau'r ardal yma. Bydd aelodau o'r Cyngor yn derbyn hyfforddiant hanes llafar fydd yn eu galluogi i fynd ati i recordio a chasglu tystiolaeth bwysig am gymeriadau a thrigolion yr ardal, gyda Chynllun Milltir Sgwâr yn ariannu a chefnogi'r gweithgaredd. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael eu golygu a'i recordio ar DVD ac yn cael eu storio yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Bydd copïau ychwanegol o'r DVD yn cael eu cynhyrchu ar gyfer eu gwerthu. Mae'r prosiect yma yn dilyn ymlaen o'r Llyfr Hanes a gyhoeddwyd ar ddechrau 2007, a'r Archif Gymunedol o Hen Luniau sydd yn cael ei sefydlu ar gyfer Plwyfi Cynwyl Gaeo a Llanycrwys.

Cyngerdd a Chymanfa Ganu

Ar nos Sul, y 7fed o Fedi, cynhelir Cyngerdd a Chymanfa Fodern yn Neuadd Bro Fana i godi arian tuag at elusen 'Amser Justin Time' – elusen a sefydlwyd gan Shân Cothi er cof am ei phriod Justin, i godi ymwybyddiaeth a rhoi gofal i gleifion sy'n dioddef o gancr y pancreas. Mae Shân a nifer o'i chyfeillion yn mynd i farchogaeth o Brestatyn yn y gogledd i lawr drwy'r canolbarth, a nôl i Gaerdydd i godi arian i'r elusen, ac mi fydd y marchogion yn cyrraedd Ffarmers ar y 6ed o Fedi – sef diwrnod Sioe Caeo a Llanycrwys. Mae'r Cyngerdd a'r Gymanfa yn gyfle i drigolion yr ardal i gefnogi ymdrech Shân a'i chyfeillion. Bydd manylion pellach ar gael yn agosach i'r digwyddiad, a gallwch ymweld â gwefan y pentre ar www.ffarmers.org

Swyddfa'r Post

Mae llawer o drafodaeth wedi cymeryd lle yn ystod y misoedd diwethaf ynglŷn â dyfodol ein swyddfeydd post, a daeth cadarnhad yn ystod yr wythnosau diwethaf fod nifer o swyddfeydd i gau. Mae'n dda cael ar ddeall fod Swyddfa Bost Ffarmers yn cael ei chadw ar agor - yn wir, hon fydd yr unig swyddfa bost rhwng Llambed a Llanymddyfri / Llambed a Llandeilo, gan fod Cwmann a Llanwrda i gau dan y cynllun diweddaraf. Tan yn gymharol ddiweddar, roedd pedair swyddfa bost ym mhlwyf Cynwyl Gaeo, ond erbyn hyn, dim ond un sydd ar ôl, ac mae'r rhan fwyaf o bentrefi'r ardal wledig yma eisoes wedi colli'r gwasanaeth. Ers rhyw 15 mlynedd bellach, mae'r Swyddfa Bost wedi ei lleoli yn Neuadd Bro Fana gan gynnig gwasanaeth ar fore Llun, Mawrth, Iau a Gwener o 9.00 hyd hanner dydd. Gobeithio y llwyddir i gadw'r gwasanaeth yma, er, rhaid cyfaddef ei bod yn frwydr barhaol i gynnal gwasanaethau yng nghefn gwlad gyda'r Cyngor Sir yn awyddus i gau ein hysgolion a gwerthu'r adeiladau am arian mawr; hefyd, caewyd nifer o'r cyfleusterau cyhoeddus yn ein pentrefi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r siopau a'r tafarndai yn cau. Mae bron yn amhosib i'n pobl ifanc ddod o hyd i dai yn ein pentrefi, a chaniatâd cynllunio yng nghefn gwlad yn beth prin iawn. Tybed a oes yna agenda wleidyddol i gau lawr ein cymunedau cefn gwlad?

Carnifal a Mabolgampau

Bydd y Carnifal a'r Mabolgampau blynyddol yn cael eu cynnal eleni ar ddydd Sadwrn, y 9fed o Awst ar Barc Bro Fana, gyda Mr Wyn Williams, Aberaeron (Rhosybedw gynt) yn Llywydd y dydd. Yn ogystal â gweithgareddau'r dydd, bydd yna hefyd Helfa Drysor yn cychwyn o'r pentref. Bydd manylion llawn i'w gweld ar y rhaglenni a'r posteri yn agosach i'r dydd, neu gallwch gysylltu â Mrs Ethel Davies yr Ysgrifennydd ar 01558 650412 am ragor o wybodaeth.

Llanycrwys

Yn ystod y gaeaf, cyfrannodd Eglwys Llanycrwys i'r cynllun 'Humanitarian Aid' trwy law Eric Harries, Aberystwyth (gynt o Gwmann) i'w ddosbarthu gan y Groes Goch ym Mostar, Bosnia. Mae Eric yn weithgar iawn gyda'r achos ac yn trefnu taith bob rhyw ddau fis i Fosnia. Yn y llun, gwelir wardeiniaid Eglwys Llanycrwys, sef Mrs Charlotte Morgan a Mrs Judy Jenkins, gyda'r nwyddau.

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist gan yr Eglwys yn Neuadd Bro Fana yn

ddiweddar. 'Roedd y noson o dan oruchwyliaeth Lowri Davies. Yn y llun, gwelir Yr Hybarch Andy John, ficer Eglwys Llanycrwys, ynghyd a'r wardeniaid yn derbyn siec oddi wrth Lowri fel rhan o'r cynllun punt am bunt a noddwyd gan Fanc Barclays. Diolchwn i Fanc Barclays am y cyfraniad i'r Eglwys.

Cwrtnewydd

Cydymdeimlo

Yn ystod y mis clywyd am farwolaeth Mrs Rita Davies, Esgerlygoer yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth ar ôl treulio cyfnod byr yno. Cydymdeimlir yn ddwys gyda'r plant, Enid a Goronwy yn Esgerlygoer a chyda'r cysylltiadau teuluol eraill i gyd sy'n byw yn lleol yn eu galar a'u colled. Bu'r angladd yng Nghapel y Bryn ac yno rhoddwyd ei gweddillion i orffwys.

Hefyd cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Eirlys Williams, Spring Gardens a fu farw yn ystod y mis. Roedd Doris ei chwaer a'r teulu oll wedi bod yn garedig iawn wrthi yn ystod ei gwaeledd diweddar. Bu'r angladd yng Nghapel Seion ac fe ddaearwyd ei gweddillion ym Mynwent Brynhafod, Gorsgoch.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Mrs Mary Jenkins, Cathal ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

Cylch Ti a Fi

Mae'n braf nodi fod rhif y plant sydd ar y gofrestr yn cynyddu ac maent wrth eu boddau yn chwarae gyda'r teganau a'r cyfleusterau newydd.

Yn ystod y mis diwethaf rydym wedi manteisio ar y tywydd braf. Derbyniwyd gwahoddiad gan yr ysgol i ymuno gyda Dosbarth y Babanod pan ddarparwyd picnic. Rydym hefyd yn ffodus ein bod yn medru defnyddio'r cyfleusterau chwarae sydd tu allan Dosbarth y Babanod.

Ar brynhawn Ddydd Mawrth, Mehefin 10 aeth sawl llond car i Aberaeron ar gyfer ein Trip Haf. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw. Ar brynhawn Ddydd Gwener, Mehefin 13 cynhaliwyd Mabolgampau Ysgol Cwrtnewydd a chynhaliwyd ras arbennig ar gyfer plant Cylch Ti a Fi. Cafodd pob plentyn a gymerodd rhan rhuban i'w cadw.

Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Mrs. Mary Jones yn ymuno gyda ni i gydlynu'r Cynllun 'Chwarae ac Iaith'.

Ar ran Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd rydym am ddymuno pob lwc i Carwyn, Lois a Lleucu fydd yn dechrau llawn amser yn Ysgol Cwrtnewydd ym mis Medi.

Cofiwch, mae croeso cynnes i bawb i'r Cylch sydd yn cwrdd ar brynhawn Dydd Mawrth yn wythnosol (yn ystod y tymor yn unig) yn Neuadd yr ysgol rhwng 1.15yh-3.30yh.

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Peter Howells Tŷ Cam ar ei briodas â Helen Davies, Green Acres, Llanllwni ar ddydd Sadwrn, 14eg o Fehefin. Dymuniadau gorau iddynt eu dau yn eu cartref newydd yn Nhŷ Cam.

Cartref Newydd

Dymuniadau gorau i Johnny, Ann a Gary Howells Tŷ Cam yn eu cartref newydd yn Shadock, Pentrecwrt.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Pat Mealing, Derlwyn ar golli ei chwaer yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Gethin Davies o Ddoc Penfro ar ennill gradd o Goleg Abertawe ac hefyd i'w frawd Daniel a gafodd ei anrhydeddu yn Blymiwr Gorau Coleg Sir Benfro. Mae Gethin a Daniel yn wyrion i Mrs Mair Davies, Dolwerdd, Drefach a Mrs Beryl Davies, Awel-deg, Llambed.

Ysgol Cwrtnewydd

Yn ystod yr hanner tymor yma mae ysgolion Cribyn, Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd wedi bod yn dod at ei gilydd i gael sesiynau o chwaraeon yn y pedair ysgol. Cafodd y plant hwyl a sbri yn ymarfer sgiliau.

Cafwyd noson o Fathemateg yn yr ysgol dan arweiniad Karen Edwards. Bu'n cyflwyno dulliau dysgu mathemateg i rieni.

Mynychodd blant blwyddyn 6 weithgaredd 'Mynd am Filiwn' dan arweiniad Gyrfa Cymru yn Ysgol Ffynnonbedr. Bu'r plant yn datblygu sgiliau entrepreneur drwy weithio mewn tîm i ddatrys problemau a defnyddio sgiliau rhifedd.

Bu plant yr adran iau yn datblygu sgiliau rygbi ar gaeau Ysgol Uwchradd Llanbed. Cawsant eu hyfforddi gan aelodau o Gampau'r Ddraig.

Cafwyd llawer o hwyl ar ddiwrnod mabolgampau eleni gydag Ysgol Capel Dewi yn ymuno â ni. Eleni tro'r tîm melyn oedd cipio'r darian. Bu cystadlu brwd ond y ferch lwyddiannus eleni gyda'r marciau uchaf ac yn derbyn Tarian Goffa Ieuan Jones oedd Charlotte Crowe a'r bachgen gyda'r marciau uchaf ac yn derbyn Tarian Goffa Steven Sutcliffe oedd Arwel Jones. Llongyfarchiadau i bawb am gystadlu!

Bu plant blwyddyn 5 a 6 yn ffodus iawn i gael wythnos o wyliau addysgiadol ym Mhentywyn yng nghwmni Ysgolion Cribyn, Llanwnnen, Llanwenog a Ffynnonbedr. Cafodd y plant a'r athrawon brofiadau newydd cyffrous. Ar y dydd Iau bu'r plant yn lwcus iawn i fynd ar daith i Gastell Penfro. Dychwelodd pawb brynhawn Gwener wedi blino'n lan ond wedi cael wythnos llawn cyffro a hwyl!

Clwb 100: 1af £10 - Alun Ward, Ellesemere. 2il £5 - Delyth Richards, Llain, Rhydlewis. 3ydd £2.50 - Hanna Davies, Gerynant, Drefach. 4ydd £2.50 - Gwenllian Llwyd, Croesor, Cwmann.

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Ar brynhawn Gwener 9fed o fis Mai aeth yr aelodau ar eu gwibdaith flynyddol. Roedd y tywydd yn braf pan gyrhaeddom dref hanesyddol Llandeilo. Wedi treulio cwpwl o oriau yn y dref a mwynhau cwpanaid o de aed ymlaen i ymweld â Stordy Hen Gelfi Mr Nash. Roedd Mr Nash a'i deulu wedi bod yn delio mewn hen gelfi ers degawdau a chafwyd trafodaeth ddiddorol ganddo am gasgliadau'r gwahanol gyfnodau. Roedd ganddo gasgliad da o gelfi a chlociau a chafwyd awr ddifyr iawn yn edrych o gwmpas. Daeth y diwrnod i ben gyda swper blasus yng ngwesty'r Plough yn Rhosmaen. Diolchodd Mrs Gwen Davies i Mrs Ceinwen Roach a Mrs Mary Davies am drefnu'r trip.

Mrs Angela Robinson o Lanybydder oedd gennym ym mis Ebrill yn son am ei gwaith fel 'Radiologist' ac ym mis Mai daeth Mrs Lynne Lloyd atom i drafod y 'Resolutions' ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol. Diolchodd Mrs Gwen Davies iddi am ei heglurhad clir ar y materion i'w trafod. Enillydd y gystadleuaeth am lawysgrifen oedd Mrs Averina Lewis.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin yn festri Capel y Groes. Croesawodd ein Llywydd, Mrs Gwen Davies, aelodau o ganghennau Abermeurig a Llwyncelyn atom yn westeion. Ein arddangoswraig wadd oedd Mrs Alwen McConochie, enillydd y rhaglen boblogaidd Casa Dudley. Wrth ei chyflwyno cafodd ei llongyfarch gan Gwen am ei llwyddiant yn yr Eidal ac hefyd am ei gwaith gwerthfawr fel nyrs MacMillan.

Paratôdd Alwen bryd bwyd tri chwrs, rhai o'r ryseitiau wedi eu selio ar y bwydydd a baratowyd ar y rhaglen deledu yn yr Eidal. Wrth ei gwylio yn coginio, nid rhyfedd bod yr Eidalwyr wedi ei chyhoeddi yn enillydd; roedd ganddi sgiliau arbennig o baratoi a gweini bwyd. Cafodd bawb fwynhad mawr wrth brofi'r pryd gorffenedig ac roedd y cyflwyniad yn wledd i'r llygaid ac yn flasus dros ben.

Diolchodd Gwen i Alwen am arddangosfa ardderchog. Daeth y noson i ben gyda rhagor o fwyd wedi ei baratoi gan aelodau Llanwnnen a diolchodd Gwen i hwythau am wledd arbennig.

Enillwyd cystadleuaeth y mis am wneud pedwar myffin ffrwythau gan Mrs Elsa Thomas.

Pwyllgor Lles – Gwibdaith yr Haf

Ar ddydd Mercher 18fed o Fehefin aeth trigolion y pentref am wibdaith i'r gogledd. Ar ôl te deg yn Llety Parc, Aberystwyth, aethom ymlaen i farchnad Machynlleth am ryw awr a hanner. Wedi cinio ymlaen i siop Charlie yn y Trallwng. Roedd hon yn siop wledig gwerth ei gweld a threuliwyd rhyw awr yno cyn dychwelyd trwy'r Drenewydd, Llanidloes, Eisteddfa Gurig a Phonterwyd yn ôl i Lety Parc. Taith bleserus a golygfa hyfryd.

Ar y bws cafwyd raffl a'r gwobrau yn rhoddedig gan Mrs Ann Hughes, y Cyng. Haydn Richards, Mr Roy Roach, Mrs Avril Jones a Mrs Alice Davies. Yr enillwyr oedd Mrs Jean Jones Alltyblaca, Mrs Avril Jones, Llanwnnen, Mrs Irene Jackson, Llanwnnen, Mrs Joy Allen, Alltyblaca a Mrs Ann Pimblett, Alltyblaca.

Diolchodd Mrs Gwen Davies i Mr Gomer Lewis, Mrs Ann Hughes a Mr Emyr Lloyd am drefnu'r dydd a dymunodd Gwen wellhad llwyr a buan i Mr Gomer Lewis, Mr Aneurin Davies a Mrs Eva Davies a oedd wedi methu bod yn bresennol oherwydd afiechyd. Cyrhaeddwyd nôl yn Llanwnnen yn ddiogel ond blinedig tua hanner awr wedi wyth o'r gloch.

Ysgol Llanwnnen

Bu merched blwyddyn 6 i fyny yn Eglwys Llanbadarn Fawr, Aberystwyth ddydd Gwener, Mehefin 6ed i recordio CD o Gorau Ceredigion. Bydd ar werth yn ystod yr haf gobeithio.

Ar ddydd Gwener, Mehefin 13eg aeth dau dîm Rownderi'r ysgol i gystadlu ar gaeau Ysgol Ffynnonbedr. Bu'r ddau dîm yn cystadlu'n galed yn ystod y dydd. Erbyn diwedd y prynhawn roedd Tîm Llanwnnen A a B yn chwarae yn erbyn ei gilydd yn y rownd gynderfynol ysgolion bach. Tîm 'A' wnaeth ennill ac yna'n chwarae yn erbyn Llanybydder 'A' yn y ffeinal. Llanwnnen 'A' wnaeth ennill o 1-0. Da iawn chi blant.

Am yr wythnos Mehefin 16eg – 20fed bu Kate, Hannah, Ffion, Rhian ag Emma i lawr ym Mhentywyn.

Yna ar nos Fawrth, 23ain o Fehefin bu'r merched yn perfformio yng Nghyngerdd y Proms yn Aberystwyth. Cafodd Rhian ei dewis allan o dros 300 o blant i ganu unawd gyda'r côr. Bu'r profiad yn sefyll yn y cof am amser maith.

Gobeithio eich bod i gyd erbyn hyn wedi prynu tocyn i ddod i weld Cyngerdd y Canmlwyddiant yn Theatr Felinfach y penwythnos yma. Llywydd y penwythnos fydd Elin Jones AC. Gweler rhai o luniau fel rhagflas i aros pryd yn y rhifyn yma o CLONC. Cewch yr hanes yn llawn ym mis Medi.

Ar ddiwedd tymor yr haf byddwn yn ffarwelio gyda phump o ferched sydd yn ymadael am Ysgol Gyfun Llambed sef Hannah Cooper, Ffion Jones, Kate Jones, Rhian Griffiths a Emma Newton-Jones. Pob hwyl i chi.

Gohebiaeth Clonc

Annwyl Olygydd

Rydw i a'm chwaer wedi ymgartrefi ryw ddwy filltir allan o bentre Cribyn ers rhyw ugain mlynedd. Tan yn ddiweddar byddem yn mynd i'r Swyddfa Bost a'r siop yng Nghribyn neu'n gyrru i Lambed i siopa ac ymweld â'r meddyg. Yna mi ges i strôc wael wnaeth adael fy ochr chwith yn wan a bregus, a doedd dim modd i mi yrru mwy. Doedd Sali, fy chwaer, fawr gwell, gan ei bod yn rhannol ddall a'i meddwl yn tueddu i grwydro. Rhyngom 'dan ni'n gwneud gwerth un person deche, ond wnawn ni ddim gwerth hanner person ar wahân.

Daeth y ferch lan o Kent gyda'i gŵr i wneud yn siŵr bod y tŷ yn ddiogel, a mod innau'n medru ymdopi. Ar y cyfan rydan ni'n dod i ben yn ddigon hwylus, heblaw am y teithio, ac mae'n rhaid teithio i gyrraedd y siopau, y feddygfa, y dyn traed, i nôl fy mhensiwn, a phob dim arall. Bu'r cymdogion yn gymorth mawr i ni yn yr wythnosau cyntaf wedi i mi ddod adref o'r ysbyty, yn galw heibio i fynd i nôl mân bethau, ac hyd yn oed mynd a ni i'r feddygfa, ond allwn ni ddim pwyso arnynt am byth. Mae ganddynt swyddi neu deuluoedd eu hunain i ofalu amdanynt. Does dim gwasanaeth bws dyddiol. Rydan ni'n ffonio am fws sy'n galw heibio bob dydd Mawrth i fynd â ni i Lambed.

Ces help mawr gan Geir y Wlad i fynd i wneud y siopa. Byddai'r gyrrwr yn mynd â ni fewn i Lambed ac yn helpu fi o amgylch y siopau, yn llwytho'r bagiau ac yn dadlwytho'r cyfan wedi i ni gyrraedd adre. Doedd dim yn ormod iddi. Byddai'n gwneud yn siwr bod pob dim yn cael ei roi gadw cyn iddi adael. Byddai'n galw yn y feddygfa i nôl y prescription, ac yna'n mynd â fi i'r Swyddfa Bost i nôl fy mhensiwn.

Daeth tro ar fyd i Sali druan, ac roedd angen hip newydd arni. Roedd rhaid mynd i Ysbyty'r Tywysog Phillip yn Llanelli i gael archwiliad, a bu Ceir y Wlad yn arbennig o dda. Yna, ym mis Mehefin llynedd, newidiodd y cyfan. Doedd Ceir y Wlad ddim yn mynd â phobl i'w hapwyntiadau yn yr ysbyty, er y gallen ni fynd i siopa neu i'r feddygfa fel arfer. Bu'n rhaid gohirio'r apwyntiad nesa ac roeddwn i'n poeni'n enaid am beth fyddai'n digwydd o hynny 'mlaen.

Daeth yr ateb oddi wrth Gyngor Henoed Ceredigion. Es i i un o'i glybiau ciniawau lle awgrymodd un o'r gwragedd y dylwn gael gair 'da Enid o CAVO, i weld os oeddwn i'n gymwys i dderbyn tocynnau tacsi. Doeddwn i erioed wedi clywed am CAVO, ond dywedodd Jane y gallai hi ffonio ar fy rhan i. Ffoniodd Enid ryw dri diwrnod wedyn gyda gwybodaeth am gynllun o'r enw Ceir i Ofalwyr, a llanwodd y ffurflen i'r Cynllun Tocyn Tacsi CAVO fewn dros y ffôn. Byddai'n danfon y gwaith papur i mi ei arwyddo'r diwrnod hynny.

Ffoniais Rachel o Geir i Ofalwyr, a chytunodd i ddod i'n gweld ni. Gan fod Sali a minnau'n gofalu am ein gilydd, rhoddodd Rachel ein henwau ar y cynllun. Byddem yn medru mynd i siopa ac i'r feddygfa fel rydan ni'n gwneud gyda Cheir y Wlad. Yr unig wahaniaeth oedd bod Ceir i Ofalwyr yn fodlon mynd â ni i apwyntiad yn yr ysbyty os oedd angen. Daeth y Tocynnau Tacsi CAVO ar ddechrau mis Rhagfyr, mewn pryd i ni fynd i wneud peth siopa Dolig pan oedd Ceir y Wlad a Cheir i Ofalwyr ddim ar gael.

Daeth apwyntiad arall i fynd i Ysbyty Llanelli i weld y llawfeddyg cyn iddo wneud y driniaeth. Ffoniais Rachel, Ceir i Ofalwyr, i gael car i fynd â ni i'r ysbyty, ond doedd neb ar gael y diwrnod hynny. Roedd rhai tocynnau tacsi gen i ar ôl, ond ddim hanner digon i'r siwrnai i Lanelli, heb son am ddod nôl i Droedyrhiw. Ffoniais Enid wedyn, i weld os oedd modd cael rhagor o docynnau, ond roedd y cyfan wedi cael eu dosbarthu. Awgrymodd y gallen ni ffonio'r Ganolfan Galwadau Meddygol oedd wedi agor ym mis Hydref.

Gelwais y Ganolfan Galwadau Meddygol ar unwaith, ac wedi i'r groten ofyn cwestiynau di-ri, cytunodd i ddanfon car ambiwlans i nôl Sali a finne ar ddiwrnod yr apwyntiad yn Llanelli. Fel arfer, byddai Sali wedi gorfod mynd ar ei phen ei hun, ond gan ei bod yn rhannol ddall, cytunodd y byddai'n syniad da i mi ddod i ofalu amdani. Roedd y siwrnai'n hir a blinedig i ni'n dwy, a bu'n rhaid i ni aros ache i bawb orffen eu hapwyntiadau cyn gadael yr ysbyty. Cytunodd y llawfeddyg y gallai wneud y driniaeth mewn pum wythnos, os oedd Sali'n parhau'n ddigon iach i'w gael. Newyddion da. Bu'n ddiwrnod da ar y cyfan, rhwng newyddion y llawfeddyg a gofal y gyrrwr.

Cafodd Sali'r llawdriniaeth yn Llanelli, a bu Ceir y Wlad, Ceir i Ofalwyr a Chyngor Henoed Ceredigion yn gymorth mawr i mi wrth deithio i'w gweld, ac yn fy helpu i gael popeth yn barod erbyn iddi ddod adref. Dw i'n siwr bod llawer o bobl eraill mewn amgylchiadau tebyg ddim yn sylweddoli bod yr holl gymorth ar gael yno iddynt. Felly, a fyddech yn fodlon rhoi'r wybodaeth yma iddynt –

Canolfan Galwadau Meddygol – 0845 804 1234; Ceir y Wlad – 01545 571 362; Ceir i Ofalwyr – 01239 623 876; CAVO – 01570 423 232; Cyngor Henoed Ceredigion – Swyddfa Aberteifi – 01239 615777, Swyddfa Aberystwyth – 01970 615151. Diolch.

Yr eiddoch yn gywir

Anne Davies

Llangybi a Betws

Cymdeithas Maesyffynnon



Cynhaliwyd cyngerdd ar nos Sul, Mehefin 15fed. Côr Tŷ Tawe oedd y côr gwadd ac fe gafwyd perfformiad gwych ganddynt o dan arweiniad Helen Gibbon. Yr unawdydd oedd Teifryn Rees ac roedd ei gyfraniad dawnus yntau yn arbennig iawn i lwyddiant y noson. Roedd hon yn noson o safon uchel iawn ac erys yn y cof am hydoedd. Y Cadeirydd oedd Mr Hywel Ebenezer ac fe gyfrannodd yntau yn hael iawn tuag at gyllid y capel. Talwyd y diolchiadau gan y gweinidog sef y Parch Elwyn Jenkins ac fe lywyddwyd y noson gan Sally Davies.

Cyngor Cymuned Llangybi

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y cyngor ar Fai 14eg yn Ysgol y Dderi gyda'r Cadeirydd y Cyng. G. Hicks yn llywyddu. Trafodwyd materion yn ymwneud â hen ysgol Silian, sbwriel a chyfyngu cyflymder ym mhentref Silian, hefyd ansawdd gweledol teledu yn ardal Silian yn wael a bod signal i ffon symudol yn wan iawn. Gofynnwyd am arwydd Llwybr Troed ger Llyn Falcondale a rhagor o olau ym Mro Tawelu. Derbyniwyd cwyn gan un o breswylwyr Rhydlanfair yn erbyn modurwyr oedd yn gadael eu ceir ar yr ystâd heb fod yn breswylwyr yno - gofyn am arwydd i wahardd parcio cyhoeddus. Gwneud ymholiadau i Cadw am gymhorthdal i gynnal a chadw Twr y Dderi. Llongyfarchwyd y Cyng. Odwyn Davies ar gael ei ethol fel Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd. Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y sedd wag yn Silian.

Merched y Wawr y Dderi

Cyfarfu'r gangen ar Fai 21ain yn Ysgol y Dderi dan lywyddiaeth Lettie Vaughan. Y gwesteion oedd Eifion ac Yvonne Davies ac fe gawsom noson fendigedig yn eu cwmni diddan. Hanes Stryd Fawr Llanbed drwy gyfrwng lluniau a welsom ac Yvonne yn rhoddi hanes yr adeiladau i ni o'r flwyddyn 1841 ymlaen. Noson o brocio'r cof i lawer ohonom. Diolchwyd i'r ymwelwyr am noson mor hyfryd gan y llywydd.

Llongyfarchwyd Gwyneth Evans a Gladys am eu llwyddiant yn yr Ŵyl Haf ym Machynlleth. Roedd pawb a fu yno wedi mwynhau eu hunain yn enfawr. Mawr oedd llwyddiant gwragedd ardal Llanfair o Gangen y Dderi hefyd mewn cystadleuaeth gan Sefydliad y Merched gan ennill cwpan am eu gwaith. Llongyfarchiadau iddynt hwythau hefyd.

Enillwyd y raffl gan Denis Hicks ac Eifion ac fe'u rhoddwyd gan Mary Jones a Lettie. Arlwywyd paned o de a bisgedi gan Jennifer Matthias a Mari Spate. Bydd y cyfarfod nesaf yn y "Fishers Arms" yng Nghellan - noson i drefnu rhaglen 2008-09 gan gynnwys pryd o fwyd i orffen y noson.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mr & Mrs Cliff Holgato ar enedigaeth eu mab - Bleddyn Richard. Brawd bach i Dwynwen.

Adferiad

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Rowena Williams, Maeslyn ar ôl ei hanffawd yn ddiweddar. Brysiwch wella.

Cydymdeimlo

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro â theulu McLoughluin, Penblodeuyn ar farwolaeth Mr McLoughlin.

Cymdeithas Hanes Llangybi

Cyfarfu'r aelodau ar Fehefin 5ed yn Ysgol y Dderi dan lywyddiaeth Mrs Janet Evans. Talwyd pleidlais o ddiolch i Mrs Lynne Williams am ei gwaith a'r gofal o blannu ac edrych ar ôl y planhigion yn y pentref. Yn anffodus mae dau o'r potiau wedi diflannu. Dywedwyd fod yna ardd organic yn cael ei chreu yn yr ysgol. Unrhywun sydd ag amser ar eu dwylo neu â phlanhigion sbâr fe fyddai eich cyfraniad yn werthfawr i'r fenter.

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Llwyn Madyn, Cwrtycadno, Buarth-y-re

Mae sôn am Llwyn Madyn yn Llanybydder yn 1599. Cadno neu lwynog yw un ystyr i 'madyn'; 'maden' yw'r enw ar yr ast. Digwydd 'madyn' yn elfen mewn enwau lleoedd mewn sawl ardal o Gymru. Yn Sir Benfro mae Llethr Madyn a Tyddyn Madyn yn Llan-y-cefn a cheir Pont Faden yn Sir Fflint a Nant Maden ym Mhenderyn yn Sir Frycheiniog. Mae Llwybr Madyn yn Llanidloes, Llethr Madyn yn Llanboidy a Nant Madyn yn ardal Brongest yng Ngheredigion.

Mae 'cadno' yn enw llawer mwy cyfarwydd ar Siôn Blewyn Coch yn yr ardal hon: ceir Allt y Cadno, Carreg y Cadno, Clwt y Cadno, Cwrt y Cadno, Ffos y Cadno, Ffynnon y Cadno, Pant y Cadno yng Ngheredigion. Yn Sir Gaerfyrddin ceir: Cwm Cadno, Allt y Cadno, Nant y Cadno, Bryn y Cadno, Cadno, Cwrtycadno. Yn Sir Benfro ceir: Dar y Cadno, Castell Cadno, Ogof Cadno. Yn Sir Forgannwg mae Ynys y Cadno, Gwaun y Cadno, Llety'r Cadno.

O ran dosbarthiad daearyddol digwydd 'cadno/canddo' mewn tafodieithoedd i'r de o gwm Ystwyth; 'llwynog' sy'n digwydd amlaf o ddigon ar draws gogledd Cymru. Perthyn i ogledd Cymru, yn ogstal, mae enwau lleoedd sy'n cynwys yr elfen 'llwynog': ceir Cae Carreg y Llwynog, Cae Twll y Llwynog, Daear y Llwynogod, Pompren Llwynog, Porth Llwynog, Ffridd y Llwynog, Dôl y Llwynog, Nant y Llwynogod, Perth y Llwynog, Llwybr y Llwynog yng Ngwynedd.

Ond i ddychwelyd i Lanybydder ac at Lwyn Madyn. Yn ogystal â dynodi 'cadno' digwydd Madyn yn enw ar berson. Mae Cae Madyn Foel yn Sir Amwythig; Cae Madyn Goch yn Sir Ddinbych a cheir sôn am gymeriad o'r enw Einion ap Hywel ap Madyn yn Sir Feirionnydd yn 1592. Gall Madyn fod yn ffurf anwes ar Madog ac, yn sicr, fe ddylid ystyried y posibilrwydd mai ffurf anwes ar Madog a geir yn Llwyn Madyn, Llanybydder. Wedi dweud hynny prin yw'r enghreifftiau o enwau personol yn dilyn 'llwyn' yn yr ardal hon: gwn yn unig am Llwyn Owen ym Mhencarreg, Llwyn Gruffudd a Llwyn Pyr yn Llanllwni.

Nid oes byth angen ymddiheuro am ystyried mwy nag un esboniad wrth geisio dehongli enw lle a byddwn yn gwneud hynny'n bur aml yn yr ysgrifau hyn. Dim ond wedi pwyso a mesur sawl posibilrwydd gwahanol, mae'n bosibl ystyried bod un ohonynt wedi dod yn agos at y gwirionedd.

Enw diddorol arall yn Llanybydder yw Buarth-y-re (1599). Mae'r elfen 'gre' yn digwydd yn reit gyffredin mewn enwau lleoedd ac mae'n dynodi haid neu yrr o feirch a chesig magu. Lluosog gre yw greon. At yr enw o Lanybydder, ceir Buarth-y-re yn ogystal yn Llanrhaeadr ym Mochnant (1695), yn Ystrad-fflur (1285) ac yn Llanfachreth yn Sir Feirionnydd. Ceir Bryn-y-re yn Nhrawsfynydd a Llechwedd-y-re yn Llanberis. Mae Perth-y-re yn Rockfield, Sir Fynwy; Rhyd-y-re yn Llanuwchlyn, Sir Feirionnydd ac yn Llandysul (1564) yng Ngheredigion. Mae Coed-y-re (1479) yn Nhrefonnen, Sir Amwythig a Phorth-y-re yn Wrecsam (1563).

Yr enw ar yr un a ofalai am y re oedd y grëwr neu'r greor a cheir Erw'r greor (1569) yn Nhrefalun, Sir Ddinbych a Rhyd-y-greor (1588) yn Llanfyllin, Sir Ddinbych. Ffurf berthynol arall yw grewys, sef yr enw ar un yn perthyn i re o feirch a chesig. Digwydd y ffurfiau march grewys a chaseg rewys yn enwau ar farch a chaseg sy'n perthyn i'r re.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Daeth Gweinidog Iechyd Llywodraeth y Cynulliad, Edwina Hart AC, yn arbennig i Aberystwyth ar ddechrau mis Mehefin er mwyn datgan ei bod wedi cymeradwyo cynlluniau i fuddsoddi £31 miliwn yn Ysbyty Bronglais. Ddwy flynedd yn ôl roedd trigolion Ceredigion yn gorymdeithio i wrthwynebu cynlluniau i symud gwasanaethau mamolaeth o Aberystwyth i Gaerfyrddin, ac mae'r buddsoddiad yma yn dro pedol arwyddocaol. Bydd yr Ymddiriedolaeth Iechyd nawr yn parhau gyda'r cynlluniau i adeiladu estyniad newydd i'r ysbyty a fydd yn cynnwys adran ddamweiniau newydd ynghyd â theatrau ychwanegol. Bydd wardiau eraill presennol – gan gynnwys y ward mamolaeth – hefyd yn cael eu hailwampio.

Ychydig cyn ymweliad y Gweinidog ag Aberystwyth, fe gyhoeddwyd yr adroddiad a gomisiynwyd ganddi oddi wrth Dr Alan Axford ar ysbytai cymunedol Ceredigion. Rwy'n falch iawn bod yr adroddiad hwn wedi cadarnhau bod yr angen yn parhau am ysbytai gyda gwelyau yn Aberteifi a Thregaron, ynghyd â chanolfan iechyd yn Aberaeron. O ganlyniad, rwy'n gobeithio y bydd pawb yn parhau i gydweithio i ddod â'r cynlluniau cyffrous i ffrwyth – yn enwedig yn Aberteifi ble mae anghytuno dros leoliad i'r datblygiad newydd yn parhau i oedi'r broses.

Yng nghanol yr holl newydd da am y gwasanaeth iechyd, fe gefais siom fawr wrth glywed bod Swyddfa'r Post Cyf wedi penderfynu parhau â'u cynlluniau i dorri'r nifer o ganghennau sydd ganddynt yng Ngheredigion. Mae yna deimlad cryf iawn yn erbyn y cynigion yma ymysg trigolion Ceredigion ac rwy'n siŵr y bydd nifer ohonoch yn rhannu fy siom â'r penderfyniad hwn. Fodd bynnag, mae dyfodol pedair Swyddfa Bost yn parhau yn y fantol – Llanilar, Llangeitho, Llanddewi Brefi a Phontsian – wrth i Swyddfa'r Post Cyf a Golwg ar Bost drafod y cynlluniau ar gyfer yr ardaloedd hyn ymhellach. Byddaf nawr yn cynnal trafodaethau brys gyda'r ddau sefydliad yma ar y mater hwn.

Yn olaf, roedd hi'n braf iawn mynychu Rali'r Ffermwyr Ifanc ym Mhrengwyn a Sioe Aberystwyth yn ddiweddar. Gyda'r haf bellach wedi cyrraedd, mae tymor y sioeau eisoes wedi cychwyn ac edrychaf ymlaen at fynychu amryw o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir – gobeithio'n wir y gwelaf rai ohonoch yno!

GLYN PHILLIPS
Saer Coed ac Asiedydd

Ffôn: 01570 470176
Symudol: 07775 694243

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambed
01570 422895

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Dewch i weld
Arddangosfa Hen Beiriannau
Vintage Display
yn Ffair Ram, Cwmann
ar 13eg Medi 2008

Injan sefydlog, Tractor, Car, Cerbynau Masnachol, Beiciau Modur a mwy.

Gwobrwyir pob eitem.

Ffurflenni cofrestri oddi wrth Gwyn Williams, Wyngarth, Cwmann 01570 422048
I'w dychwelyd erbyn 30.08.08

Ffair Haf
Ysgol Carreg Hirfaen
Nos Iau Gorffennaf 17
I ddechrau am 5 o'r gloch
Barbiciw, Gemau, Castell Neidio
Dewch i ddathlu agoriad swyddogol Gardd yr Ysgol
Yr elw tuag at 'Jump Rope for Heart' Sefydliad Prydeinig y Galon ac Ysgol Carreg Hirfaen, Cwmann.
Croeso i bawb

Noson Goffi
yn Frondolau, Pentrebach
Nos Wener 11eg Gorffennaf
am 6 o'r gloch
Yr elw tuag at Ymchwil y Cancr

Cymorth Cristnogol
Llanwenog a Llanwnnen
Diolch i'r ffrindiau a fu o gwmpas yr ardal yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni eto yn casglu o dŷ i dŷ.
Daeth y cyfanswm i £1,072.50; drwy ymateb llawer wrth lanw cefn yr amlen i hawlio ad-daliad treth incwm, gellir ychwanegu tua £120 at y swm uchod.
Diolch yn fawr am bob cyfraniad.

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING
Y gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer bob achlysur:
Priodas; Penblwydd; Bedydd; Angladd; Cinio Busnes; Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach
Cyswllt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎01570 481230 📱 07967 559683

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn

Ar ôl yr etholiadau i'r Cyngor Sir gallwn ymfalchïo yn llwyddiant y tri aelod lleol a fydd yn cynrychioli'r rhan hon o'r byd ar Gyngor Sir Gâr. Mae'r tri aelod yn ymwybodol o'r argyfwng yn ein swyddfeydd lleol post ac yn cadw llygad ar y datblygiadau. Gwyddom yn rhy dda yn yr ardal hon am yr anghymwynas a wnaed wrth ddinistrio'r gwasanaeth post yng nghanol tref Llambed.

Eirwyn Williams

Yn gydnabyddiaeth o'i wasanaeth clodwiw i'r ardal ac i Sir Gâr dros y blynyddoedd, fe ddychwelodd Eirwyn Williams yn ddiwrthwynebiad i gynrychioli Cynwyl Gaeo.

Linda Evans

Wyneb newydd ar y Cyngor yw Linda Evans a'i hardal yn cynnwys Llanllwni, Llanfihangel-ar-arth, Pont-tyweli, Alltwalis, Gwyddgrug, New Inn a Phencader. Mae eisoes wedi tywys un o swyddogion y Cyngor drwy'r pentrefi yn y ward, gan bwysleisio'r angen am balmentydd a mesurau diogelwch ychwanegol ar y ffyrdd. A bu'n trafod trafnidiaeth ym Mhont-tyweli gyda'r heddlu a swyddogion y Cyngor Sir. Collodd Cyngor Bro Llanllwni glerc cydwybodol ond cafodd y ward gynrychiolydd diwyd ar y Cyngor Sir.

Fiona Hughes

Fiona Hughes yw'r wyneb newydd arall a Fiona sy'n cynrychioli Llanybydder, Rhydcymerau, Pencarreg, Cwmann ac Esgairdawe o hyn ymlaen. Mae wedi'i sefydlu ei hun yn arwain yr ymgyrch lwyddiannus i ddiogelu'r Annedd, a'r Annedd a gafodd y prif sylw yn ei hanerchiad cyntaf yn Siambr y Cyngor. Anerchiad a hawliodd gryn sylw. Cafodd addewid y byddai barn leol yn cael ei ystyried wrth enwi'r safle newydd. Bwgan arall yw'r bygythiad i'r ciosg ym mhentref Rhydcymerau lle mae diffygion y derbyniad ar ffôn symudol yn warth.

Fiona oedd yn agor Garddwest Sefydliad y Merched er budd yr NSPCC yn Ffynnon Iago, Llanybydder ddechrau mis Mehefin.

Clecs y Coleg

CYNHADLEDD AMLGYFRWNG GENEDLAETHOL

Ddydd Mercher, 18 Mehefin, cynhaliwyd cynhadledd amlgyfrwng genedlaethol ar gyfer disgyblion ysgol yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Daeth disgyblion ac athrawon o ysgolion uwchradd Llambed, Tregaron, Pantycelyn a Bro Myrddin i gampws y coleg i glywed darlithoedd gan Dr Rhiannon Ifans, Dr Elisa Moras, y Prifardd Ceri Wyn Jones a'r nofelydd Caryl Lewis. Mynychwyd y gynhadledd hon ar yr un pryd drwy'r rhwydwaith fideo gan ddisgyblion mewn ysgolion ledled Cymru."Dyma'r drydedd gynhadledd imi'i threfnu eleni ar gyfer ysgolion," meddai Owen Thomas, darlithydd yn yr adran. "Yn y ddwy flaenorol, a gynhaliwyd yn ystod tymhorau'r hydref a'r Pasg, sesiynau awr yn unig a gynigiwyd, ond penderfynwyd y tro hwn y byddai'n fuddiol cynnig mwy o amrywiaeth o siaradwyr mewn cynhadledd lawer hwyach.""Y gynulleidfa darged ar gyfer y gynhadledd hon oedd disgyblion blwyddyn 12 a oedd ar fin cychwyn ar eu gwaith Safon Uwch ac rwy'n arbennig o falch fod athrawon a disgyblion o 18 o ysgolion o Fôn i Fynwy wedi elwa o'r diwrnod ac wedi dysgu mwy am yr hengerdd, rhyddiaith yr Oesoedd Canol, barddoniaeth gyfoes a'r nofel Martha, Jac a Sianco."Bydd cynadleddau tebyg ar gael i ddisgyblion ac athrawon y flwyddyn nesaf yn ogystal. I gael rhagor o fanylion cysylltwch ag Owen Thomas (01570 424864): owen.thomas@lamp.ac.uk

Yn y llun gwelir disgyblion ysgolion lleol Llambed, Tregaron, Pantycelyn a Bro Myrddin yn gwrando'n astud ar y nofelydd Caryl Lewis yn trafod 'Martha, Jac a Sianco'

CYRSIAU CYMRAEG DWYS

Yn ystod mis Mehefin hefyd cynhaliwyd cyrsiau dwys i ddysgwyr y Gymraeg gan staff yr adran a thiwtoriaid allanol. Ar ddiwedd yr wythnos cyflwynwyd tystysgrifau i'r myfyrwyr gan Lywydd y Brifysgol, Dr Brinley Jones. Cynhelir cwrs penwythnos i ddechreuwyr ar 13-14 Medi 2008. Am ragor o fanylion cysylltwch â Linda Jones (01570 424754): linda.jones@lamp.ac.uk

Yn y llun gwelir staff a dysgwyr yn mwynhau heulwen ddiwedd yr wythnos ddysgu ddwys ym Mhrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Yng nghanol y rhes flaen y mae'r Is-ganghellor a Llywydd y Coleg.

Llanllwni

Priodas Dda

Llongyfarchiadau i Helen Davies, Greenacres a Peter Howells, Tŷ Cam ar eu priodas yn ddiweddar. Dymuniadau da iddynt i'r dyfodol yn Nhŷ Cam, Llanwenog.

Diolch

Dymuna Dewi a Mair, Brynsiriol ddiolch i bawb am y llu cardiau, galwadau ffôn, blodau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur.

Hefyd, dymuna Emrys Evans, Llanerch ddiolch i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a phob arwydd o garedigrwydd yn ystod ei lawdriniaeth yn ddiweddar.

Hefyd, hoffai Eric a Tegwen Davies, Neunant ddiolch am bob peth a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Ruddem boed yn anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a phob un a gysylltodd â hwy. Diolch i bawb.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Eric a Tegwen Davies, Neunant ar ddathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Croeso

Mr a Mrs Emery yw perchnogion newydd Swyddfa'r Post Llanllwni. Croeso cynnes iawn i chi i'r fro. Mae papur bro Clonc ar werth yn y siop ganddynt.

Codi Arian

Ar ddydd Sul, Mehefin 15fed cynhaliwyd achlysur arbennig i godi arian tuag at yr Ambiwlans Awyr a L.A.T.C.H. Yr oedd bron dri chant o bobl wedi ymgynnull i gael cinio mewn pabell fawr yn Greenacres a rhwng y bwyd, raffl ac arwerthiant codwyd y swm sylweddol iawn. Hoffai'r trefnwyr ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu'n cyfrannu mewn unrhyw ffordd – fe geir rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf.

Cydymdeimlo

Syfrdanwyd ardal gyfan gyda'r newydd o farwolaeth Hywel Davies, Bryndulais ar ôl damwain yn ei gartref ac yna cyfnod yn Ysbyty Treforys. Bachgen lleol oedd Hywel - un o deulu Cnwcylili ac wedi byw a gweithio yn yr ardal gydol ei oes. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod, Wendy a'r plant Melanie, Martin a Kelly ac hefyd Aled a'r holl gysylltiadau eraill. Claddwyd ei weddillion yn Eglwys y Plwyf, Llanllwni dydd Mercher, Mehefin 18fed. Hoffai Wendy a'r teulu ddiolch i bawb am yr holl garedigrwydd, cardiau, galwadau a dderbyniasant.

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da i Nansi Evans, Llanerch sydd wedi treulio cyfnod o dan ofal yn Ysbyty Glangwili. Gobeithio y bydd adref yn ei chartref cyn bo hir ac wedi cael gwellhad llwyr.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Elin Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau ar gael ei dewis yn Brif-Ferch yn ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan.

90 oed

Pen-blwydd hapus i Charles Evans - Charlie 'Auctioneer' yn 90 oed. Gwelwyd erthygl hyfryd amdano yn y cylchgrawn Golwg.

Ysgol Llanllwni

Aeth dosbarth y babanod ar ymweliad â Fferm Alltyfyrddin. Cawsom groeso gan Mr a Mrs Richards a gwelsom amrywiaeth o anifeiliaid, y parlwr godro a'r amgueddfa. Ar ôl cael ein picnic ar y fferm aethom ymlaen i dref Caerfyrddin er mwyn cymharu ardal drefol gyda'n ardal wledig ni. Cafwyd diwrnod hwylus iawn. Rydym hefyd wedi bod ar daith lan i'r mynydd gan gasglu a sylwi ar bethau natur a gweld yr olygfa fendigedig.

Bu pawb o amgylch y pentre, bore Gwener, Mehefin 6ed yn casglu sbwriel, fel rhan o ymgyrch i lanhau Sir Gâr. Aeth un grŵp lan i'r mynydd, grŵp arall lawr i Bryndulais a'r trydydd grŵp lawr heol Maesycrugiau. Mae'r ardal tipyn glanach nawr!

Sgiliau athletau sydd gennym yn ein Clwb Campau'r Ddraig yr hanner tymor yma. Mae plant Cyfnod Allweddol 2 yn mwynhau'r gweithgareddau yn fawr.

Aeth yr Adran Iau i gymeryd rhan mewn twrnament pêl-droed a rownderi ar gaeau Ysgol Ffynnonbedr dydd Gwener, Mehefin 13eg. Cawsant ddiwrnod hwylus iawn a phawb wedi gwneud eu gorau. Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-droed am ddod yn ail gan dderbyn medalau. Aelodau'r tîm oedd Dorian, Liam, Daniel, Gavin, Steffan a Ceiros.

Aeth tîm o'r Adran Iau i gymeryd rhan mewn cystadleuaeth pêl-droed ar gaeau Llanfihangel-ar-arth. Aelodau'r tîm oedd Dorian, Dyfan, Steffan, Liam, Sara, Betsan a Beth.

Aeth merched yr Adran Iau i Ŵyl bêl rwyd yn Llambed gan ymarfer sgiliau'r gêm.

Llongyfarchiadau i blant blwyddyn 5 a 6 am basio eu prawf beicio yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Dorian (bl.6) am ennill cystadleuaeth Celf i gynllunio crys T i ddathlu canmlwyddiant Cartref Alltymynydd. Fe fydd Dorian yn cael ei wobrwyo ar ddydd y dathlu sef Gorffennaf 19eg. Da iawn ti.

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol dydd Iau, Mehefin 19eg ar gaeau Garej Tegfan trwy garedigrwydd Mr a Mrs Tommy Davies. Bu pob plentyn yn cymeryd rhan a chael llawer o hwyl. Y tîm buddugol oedd Hendre gyda'i gapteiniaid Dorian a Kacey. Aeth y tariannau i'r unigolion gyda'r mwyaf o farciau i'r canlynol:-Merch yr Adran Iau: Bethan Eynon, Bachgen yr Adran Iau: Scott Douglas, Merch adran y Babanod: Rebecca Evans, Bachgen adran y Babanod: Owain Evans.

Enillwyd tariannau am redeg rhan hir i Daniel Douglas (Adran Iau) a Steffan Evans (Babanod).

Cafodd y canlynol fedalau am gael mwyaf o bwyntiau ym mhob blwyddyn:- Blwyddyn 6: Liam Glasson, Blwyddyn 5: Daniel Douglas, Blwyddyn 4: Scott Douglas, Blwyddyn 3: Bethan Eynon, Blwyddyn 2: Rebecca Evans, Blwyddyn 1: Steffan Evans, Blwyddyn 0: William Eynon, Derbyn: Owain Evans.

Diolch i blant Blwyddyn 6 am roi'r tariannau ac i'r rhieni a ffrindiau am eu cefnogaeth.

Rydyn wedi cael gwybod ein bod wedi ennill gwobr genedlaethol Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig am waith a wnaeth y plant ar y testun 'Teulu a Chymuned'. Bydd Mrs Davies, Owain (bl.6) a Sinead (bl.2) yn mynd i Brifysgol Abertawe i'r seremoni wobrwyo ar y 14eg o Orffennaf. Cewch wybod mwy eto.

Mae gennym nifer o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnosau nesaf – mabolgampau ysgolion Cylch Llambed i'r Adran Iau, a mabolgampau Cylch Pencader i bawb.

Bwriadwn fynd draw i'r Ynys Bŷr ar ein trip ysgol. Methwyd mynd llynedd oherwydd y tywydd.

Dymunwn yn dda i blant blwyddyn 6 a fydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor i fynd i ysgolion uwchradd – Steffan i Ddyffryn Teifi, Dorian, Liam, Kacey, Dyfan ac Owain i Lambed. Pob lwc i chwi gyd a chofiwch ddod nôl i'n gweld.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol Mis Mai: £10 – 54 – Llinos Evans, Ffynnonau. £5 – 90 – Gwenann Lewis, Awel y Mynydd. £2.50 – 51 – Evans Family, Ffynnonau. £2.50 – 127 – Emyr & Caryl, 6 Nant y Glyn, Cwmann. £2.50 – 29 – Susan Griffiths, Maes yr Onnen, Llanfihangel. Mis Mehefin: £10 – 154 – Ceris Howells, Pantglas. £5 – 33- Gethin Davies, Dolafon. £2.50 – 68 – Chris Glasson, Frondeg. £2.50 – 129- Tomos Thomas, 6 Nant y Glyn, Cwmann. £2.50 – 152 – Sioned Howells, Pantglas.

Llanfair

Marwolaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mr Eric Lewis, gynt o Gorlan, Heol Llanfair. Bu Eric yn byw ac yn gweithio yn Llundain am flynyddoedd gyda'r heddlu ac fel rhan o'i waith roedd yn ofalwr i rai aelodau o'r teulu brenhinol. Ar ôl ymddeol symudodd yn ôl i Gymru yn gyntaf i Daliaris, yna i Bumsaint cyn symud i Lanfair. Peth amser yn ôl symudodd ef a Betty, ei wraig, i Dre Ioan, Caerfyrddin. Estynnwn ein cydymdeimlad i Betty a'r teulu.

Barbiciw

Ar nos Sadwrn, Mehefin 14eg cynhaliwyd y barbiciw blynyddol pan ddaeth llai nag

arfer o bobol ynghyd i gymdeithasu a mwynhau'r bwyd blasus.

Diolch i'r rhai a fu'n brysur yn paratoi'r bwyd a'u dosbarthu, i Glenis a Lesley a fu yn gyfrifol am y miwsig y tu allan ac yn hwyrach y tu mewn i'r neuadd ac i unrhyw un arall a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.

Aberglasni

Ar ddydd Gwener, Mehefin 20fed trefnwyd diwrnod allan i ymlacio yng ngherddi a phlasty Aberglasni. Daeth un ar ddeg o bobol ynghyd ac aethant gyda'i gilydd mewn moduron. Buont yn ffodus iawn i gael diwrnod braf a chinio neilltuol o flasus yn y tŷ bwyta yno. Roedd pawb wedi cael diwrnod o fwynhad pur ac yn siarad am fynd yno eto yn fuan iawn.

Symud Tŷ

Dymunwn bob lwc i Jan, Paul a'r plant, Brynheulog, sydd newydd symud i Gwrtnewydd.

To'r Neuadd

Os pasiwch drwy Lanfair yn yr wythnosau nesaf, sylwch ar do prydferth newydd ein neuadd. Diolch i Lawrence a Linda Quelch am eu gwaith diwyd a thaclus, o osod llechu Cymreig ar ein to.

Croeso Nôl

Croeso nôl i Sioned Lewis, Penlan, ar ôl ei thaith o tua dwy flynedd o amgylch Awstralia a Seland Newydd.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Evan Davies, gynt o Siop Llanfair, sydd yn yr ysbyty, wedi cael llawdriniaeth ar ei ben-lin.

Beth sydd nesaf?

Cofiwch am Ffet a Ffair Gwrw'r pentref sy'n cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 26ain. Dewch yn llu. Bydd llawer o gemau a stondinau yn addas i blant ac oedolion, a bwyd da ar werth fel arfer.

Yn y Gegin gyda Gareth

"Gwledd Gorffennaf o'r gegin".

Mae yna gymaint o ffrwythau a llysiau ar gael y mis yma – hyfryd yw defnyddio gymaint a phosib yn ein rysetiau a'n prydiau bwyd yn ddyddiol. Maent yn llawn lliw a maeth, a'r ffrwyth aeddfed o wres yr haul yn berffaith ar gyfer pwdinau'r haf.

Rwyf wedi cael y pleser yn ddiweddar o fynd o amgylch ysgolion yn coginio gyda'r plant; digon o sport a chwestiynau, a'r bochau bach yn llawn bwyd. Dyma rai o'r rysetiau y bûm yn eu paratoi gyda'r disgyblion.

Felly mwynhewch yr haf bawb,

Gareth.

Cyw Iar gyda garlleg ac olewydd.
(Pryd perffaith i'w fwynhau yn yr ardd).

Cynhwysion
4 darn o gyw iar
Ychydig o fenyn
Sudd a chroen un lemwn
3 owns o facwn wedi'i dorri'n ddarnau
3 gewyn o arlleg wedi'u torri'n fân
½ peint o win gwyn
½ peint o stoc
15eg olewydden
Ychydig o berlysiau cymysg

Dull

1. Taenwch ychydig bupur ac halen dros y cyw iar.
2. Toddwch y menyn mewn padell ffro a selio'r cig.
3. Tynnwch y cyw iar o'r badell ac yna ffriwch y bacwn a'r garlleg am tua dwy funud.
4. Trowch y gwres i fyny ac ychwanegwch y lemwn a'r gwin.
5. Trowch y gwres i lawr; ychwanegwch y stoc, yr olewydd a'r perlysiau ac yna'r cyw iar. Coginiwch am tua ½ awr nes ei fod yn dynner.
6. Gweinwch gyda thato newydd blas mwstard.

Tato newydd blas mwstard.

Cynhwysion
500gm o dato newydd wedi'u haneru
1 winwnsyn coch wedi'i sleisio
1 – 2 llond llwy fwrdd o fwstard grawn
3 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C, 400°F, Nwy 6
2. Berwch y tato am tua 7 munud yna dreiniwch; rhowch mewn bowlen gyda'r winwns, olew a'r mwstard.
3. Gosodwch ar dun pobi a'u rhostio am 30 – 35 o funudau nes bod yna grwst ar y tato.

Tarten pînafal ac eirin gwlanog.

Cynhwysion
500gm yn gymysgedd o bînafal ffres wedi'i dorri'n gylchoedd ac eirin gwlanog wedi'i dorri'n ddarnau.
110gm, o siwgwr caster
Ychydig o bowdwr sinsir
425 gm o does puff pastry
1 ŵy

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C, 400°F, Nwy 6
2. Cymysgwch y pîn afal, eirin gwlanog a'r sinsir
3. Rholiwch ½ y toes yn ddarn hirsgwar a'i osod ar dun pobi. Yn ofalus gosodwch y ffrwythau mewn llinell ynghanol y darn toes.
4. Brwsiwch ŵy o amgylch yr ochrau.
5. Rholiwch weddill y toes a'i osod dros y ffrwythau, gwasgwch a'i selio.
6. Sgleiniwch ag ŵy a gwnewch doriadau yn y toes i greu patrwn.
7. Pobwch am 30 munud nes ei fod yn euraid.
8. Sgeintiwch â siwgwr eisin, a gweinwch â hufen ia.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

MIS Y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Cael cyfle – ond nid jacpot

Feiddia i ddim cael lliw haul eleni, neu mi fydd pobol yn amau fod arian datblygu'r Wasg Gymraeg wedi cael ei wario ar wyliau.

Dyna'r unig broblem efo cyhoeddiad y Cyngor Llyfrau ddiwedd Mai mai Golwg a enillodd y grant – mae llawer yn meddwl ein bod ni wedi cael rhyw fath o jacpot. Piti na fyddai'n wir.

I unigolyn, mi fyddai £200,000 y flwyddyn yn arian mawr. I gwmni sydd eisio creu cynllun newydd yn cyflogi tua deg o bobl, mae arna'i ofn nad ydi o'n ffortiwn. Mi fydd y cynllun ei hun yn costio'n nes at hanner miliwn.

Mae'n debyg y dylwn i nodi hefyd nad oes neb yn berchen ar Golwg – mae'n fath arbennig o gwmni sy'n golygu fod pob cyfarwyddwr yn gweithredu'n ddi-dâl ac nad oes gan neb yr hawl i dynnu elw ohono. Felly, Donegal fydd hi eleni, nid y Seychelles.

Ond mae'r arian yn rhoi cyfle i ni a, gobeithio, i ardal Llanbed. Os llwyddwn ni i gyflawni popeth, mi fydd y dref yma'n ganolbwynt i un o'r datblygiadau mwya' erioed yn hanes y wasg Gymraeg.

Mae'n wir nad oes lot o gystadleuaeth ond mae'r honiad yn ddigon teg. Yr unig beth mwy yn y cyfnod modern, fyddai sefydlu'r papurau bro.

Mi fyddwn ni'n datblygu cylchgrawn Golwg ei hun ond ar y We y bydd y gwasanaeth newydd. Nid y wasg yn yr hen ystyr o beiriant yn gwasgu print ar bapur, ond ffordd newydd o drosglwyddo erthyglau, lluniau a gwybodaeth.

Gogoniant y We ydi ei fod yn osgoi'r holl bethau araf a thrafferthus sy'n ymwneud â chyhoeddi papur newydd – y broses o osod y deunydd, yr argraffu, y dosbarthu a'r gwerthu. I gyhoeddiad bach Cymraeg, dyna ydi'r pethau anodd.

Gogoniant arall ydi fod "bod yn bopeth i bawb" yn gryfder ac nid yn wendid. Mae pobol yn gallu dewis beth i edrych arno – y pethau sydd at eu dant. Ac felly mae modd cyrraedd pobol newydd o bob math.

Os llwyddwn ni, mi fydd hi'n bosib cael newyddion o Geredigion a chanlyniadau chwaraeon o'r ardal yma hefyd. Mi fydd cwmnïau lleol yn gallu defnyddio'r gwasanaeth i hysbysebu.

Gobeithio hefyd y bydd yna gyfle i Clonc – calon y cynllun newydd fydd gwasanaeth newyddion a materion cyfoes ond, o gwmpas hynny, ryden ni eisio i bob math o gyrff, mudiadau a busnesau gymryd rhan.

Ryden ni wedi cymharu'r syniad i Faes Eisteddfod, lle mae busnesau, cyrff a mudiadau'n llogi stondin ac unigolion a chymdeithasau'n defnyddio'r cyfle i drafod a mwynhau.

Heb drio'r We erioed? Efallai mai dyma fydd y sbardun i chi fentro gwneud!

Ni chân y gog lwydlas ...

Ebrill a Mai a hanner Mehefin ydi amser y "gog lwydlas" yn ôl yr hen bennill ... ond hanner Ebrill oedd hi eleni ar fynydd Pencarreg.

Roedd yr hen chwaer yn hwyr yn cyrraedd – oherwydd yr hwthwm o dywydd oer a ddaeth ar yr union adeg y dylai hi fod yn nawseiddio a throi yn braf.

Ond fe ddaeth hi yn y diwedd, fel y bydd hi bob blwyddyn, ac am fis neu ddau roedd i'w chlywed yn gyson iawn o bobtu i Allt y Mynydd. Ac i'w gweld os oeddech chi'n lwcus.

Mynd am dro yn yr ardal honno yr oeddwn i pan ddaeth dau bererin o Barc y Rhos heibio yn y car i chwilio amdani – wedi clywed ei bod wedi cyrraedd.

Ac mi feddyliais yn sydyn sawl tro yr oedd yr un peth wedi digwydd ar hyd y canrifoedd a thros genedlaethau hir o adar a phobol.

Sawl cog oedd wedi dilyn galwad y tymhorau a theithio miloedd o filltiroedd o Affrica i gyrraedd yr un lle'n union bob blwyddyn, ychydig uwchben Llanybydder.

Ninnau, bobl, yn teimlo cynnwrf yn y gwynt ac yn meddwl ei bod yn amser, a dilyn ein greddf i'r llefydd cyfarwydd i fynd i chwilio am ei deunod ... yn union fel y gwnaeth ein cyndeidiau.

Ers dechrau amser, efallai.

PRIFYSGOL CYMRU
LLANBEDR PONT STEFFAN
Cymreictod, cenedlaetholdeb a hunaniaeth
Rhamant a serch yn yr Oesoedd Canol
Tafodieithoedd Cymru gyfan
Tarddiad enwau lleoedd
Cyfieithu ar y pryd
Nofelau modern
Ôl-foderniaeth
Cyfansoddi
Cysylltwch â Linda Jones ar
01570 424754 neu
linda.jones@lamp.ac.uk
Dysgwch am y rhain a llawer mwy yn Adran y Gymraeg
Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan
1·8·2·2
www.e-addysg.com

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl-Mebyd
Pencarreg
Llanybydder

Annwyl Blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi i gyd yn go lew ac yn barod am wyliau'r haf. Byddwch chi'n falch o glywed fod fy nghragen wedi cael MOT yn barod i fynd i'r Sioe yn Llanelwedd. Rhaid cofio pacio digon o fests rhag ofn fydd hi'n oer a gwlyb fel llynedd - wedi'r cyfan dyw'r hen Lincyn Loncyn bach ddim mor ifanc â fuodd e.

Braf gweld bod fy hen ffrindiau sef Miriam Butcher o Gaerdydd, Sioned Fflur o Lanybydder, Manon Jones o Gynwyl Elfed a Dafi Tom o Gapel Cynon wedi cofio lliwio llun y mis diwethaf. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Guto Ebbsworth, Brynamlwg, Llanwnnen.

Llongyfarchiadau mawr i chi gyd, a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn.

Hwyl am y tro





Enw:

Cyfeiriad:

Enillydd y mis!

Guto Ebbsworth

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

COMPASS
OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.

☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎ **01570 423135**
📱 07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur
Teithio
Cyfrifoldeb
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Fferm a busnes
Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Carnifal Llanwnnen

Guto Ebbsworth a enillodd y bencampwriaeth yng Ngharnifal Llanwnnen, gyda llun o Cerian Jenkins (enillydd merched 8-10) fel Mary Poppins, Heledd Jenkins fel Amy Winehouse (y buddugol dan 16) gyda Sasha Evans, Heledd Jones a Holly Cooper.

Sioe Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen

Disgyblion Ysgol Gynradd Llanwnnen yn ystod ymarfer eu Sioe Gerdd yn Theatr Felinfach. O'r chwith - Yr Efaciwis Cerian, Ellen, Sophie a Ffion, prif gymeriadau'r Sioe sef y plant, dau o gymeriadau'r Sioe sef Ryan Holmes a Twm Ebbsworth, a Joshua Newton-Jones fel prifathro.

Plant CA1 - adeiladwyr a wnaeth adeiladu'r ysgol

Profiadau'r Plant

Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn mwynhau yng Nghanolfan Pentywyn.

Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr ar daith yng Nghanolfan Pentywyn.

Parti llefaru llwyddiannus Adran Llambed yng Nghyngerdd yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid.

Lowri Elen, Llambed gydag Ifan Jones Evans, Catrin Finch a Dylan Ebenezer yng Nghyngerdd yr Urdd ym Mhontrhydfendigaid.

Cylch Ti a Fi Llanwnnen a gychwynnodd y mis diwethaf. Mae croeso cynnes i famau/gofalwyr a'r plantos bach gwrdd yn Ysgol Llanwnnen bob prynhawn ddydd Mercher. Mae'r plant bach yn mwynhau chwarae gyda'r offer gwych sydd tu allan, ac mae digon i'r rhai bach sydd ddim yn cerdded eto i wneud.

Elliw Mair a Lowri Pugh-Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan yn ennill yr ail wobr am goginio yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Conwy. Beirniadwyd y gystadleuaeth a chyflwynwyd y wobr gan Dudley.

Tîm buddugol Ysgol Llanwnnen yn nhwrnament rownderi yn Ysgol Ffynnonbedr.

Plant Canolfan Deulu Llanybydder yn codi arian tuag at Child Line drwy bedlo, gyda rhieni a gofalwyr.